



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG45428

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant, Gofal Iechyd Parhaus, hysbysu gorfodol a rheoleiddio ac arolygu

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r prif feysydd a ganlyn:

- Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal
- Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus
- Estyn y gofyniad o ran hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg
- Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 7 Tachwedd 2022

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar nifer o gynigion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, gyda'r nod o wella gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon:

- yn amlinellu cynigion deddfwriaethol ar gyfer dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal;
- yn cynnig estyn y gallu i gael taliadau uniongyrchol i oedolion sy'n gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG;
- yn edrych ar y dyletswyddau presennol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru, ac yn gofyn a ddylid ehangu'r dyletswyddau hyn;
- yn edrych ar feysydd o fewn y drefn bresennol o reoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn ceisio barn ar ddiwygiadau posibl.

Sut i ymateb

Gallwch gyflwyno eich ymateb, a hynny **erbyn hanner nos ar 7 Tachwedd 2022**, drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen [ar-lein](#)
- Lawrlwytho a llenwi ein [ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad](#) a'i hanfon drwy e-bost i: YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru
Cofiwch gynnwys y cyfeirnod **WG45428** yn llinell bwnc eich e-bost
- Lawrlwytho a llenwi ein [ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad](#) a'i hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad a nodir isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

Tîm Gweithredu'r Rhaglen a'r Ddeddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon [ar gael yn Saesneg](#).

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog.....	2
Pennod 1: Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.....	3
Pennod 2: Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parahaus y GIG..	14
Pennod 3: Hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg	21
Cyflwyniad i benodau 4, 5 a 6 yn ymwneud â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (cymeu) 2016	26
Pennod 4: Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol	27
Pennod 5: Diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol	48
Pennod 6: Estyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae.....	54

Rhagair y Gweinidog

Fel y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, rwy'n benderfynol ein bod yn parhau i wella ansawdd profiadau pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi nifer o gynigion i newid deddfwriaeth sylfaenol a fydd yn cyfrannu at y gwelliannau hyn.

Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddarau, ein Cytundeb Cydweithio a'n gwaith parhaus gydag Aelodau Dynodedig, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut y bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth ehangach ar gyfer y gofal a'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd, plant a phobl ifanc.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym hefyd wedi ymrwymo i wella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a Thaliadau Uniongyrchol. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig y bydd oedolion sy'n gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn gallu cael mynediad at daliadau uniongyrchol, a fydd yn eu galluogi i benderfynu sut, pryd a chan bwy y mae eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu. Credwn y bydd hyn yn cryfhau llais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr ymhellach.

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym hefyd yn myfyrio ar feysydd pwysig eraill lle gellid gwella'r fframwaith deddfwriaethol presennol, o ran y profiad o weithredu'r fframwaith hwn, a hefyd yn meddwl ymlaen at ganfyddiadau'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y dyletswyddau perthnasol i hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac a ddylid ehangu'r dyletswyddau hyn i gynnwys gofyniad cyfreithiol ar unigolion o fewn cyrff perthnasol i hysbysu am y rhai sy'n wynebu risg o niwed, gan gynnwys drwy gamdriniaeth neu esgeulustod.

Rydym hefyd yn archwilio nifer o feysydd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 lle credwn y gellid gwneud mân newidiadau i alluogi'r fframweithiau rheoleiddiol presennol i weithredu'n fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys newid deddfwriaethol i egluro a gwella sut mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi ac yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, a sut mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymgymryd â swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio ac arolygu 'gwasanaethau rheoleiddiedig'. Yn olaf, rydym yn cynnig ehangu'r diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys yr holl weithwyr gofal plant a chwarae, i atgyfnerthu cymorth Gofal Cymdeithasol Cymru i'r sector.

Mae'r penodau yn y ddogfen hon yn nodi'r cyd-destun a'r sail resymegol ar gyfer pob newid arfaethedig; yn egluro pam rydym yn ystyried bod angen cyflwyno neu ddiwygio'r gyfraith yn y meysydd hyn, a beth rydym yn gobeithio ei gyflawni; cyn ceisio eich barn chi ar y cynigion a'u heffeithiau tebygol.

Drwy'r ymgynghoriad hwn edrychaf ymlaen at ymgysylltu â phawb sydd â diddordeb mewn parhau i wella ein system iechyd a gofal cymdeithasol. Rwy'n croesawu eich barn a'ch sylwadau ac yn edrych ymlaen at ddeialog gynhyrchiol yn y misoedd nesaf.

Julie Morgan AS

y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Pennod 1: Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

1. Mae ein [Rhaglen Lywodraethu](#) yn cynnwys nifer o ymrwymadau sy'n amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid ar draws y system gyfan ac, yn ganolog i hynny, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau cartref, gan leihau'n sylweddol y nifer sydd angen derbyn gofal. Rydym hefyd am sicrhau bod y cyfnod y mae pobl ifanc mewn gofal mor fyr â phosibl.
2. Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio sut rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc fel y gallwn sicrhau'r gorau i'n pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol.
3. Fel rhan o'r [Cytundeb Cydweithio](#) rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae yna ymrwymiad clir i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' ac mae'r ymrwymiad hwnnw'n elfen allweddol o'r agenda radical hon.
4. Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am dderbyn gofal gan sefydliadau o dan berchnogaeth breifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylai yna fod marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylai elw gael ei wneud o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ddod â hyn i ben. Mae hyn yn golygu y bydd gofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw.
5. Ein nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yng ngofal plant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant er mwyn sicrhau profiadau a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, gan helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau a hybu datblygiad proffesiynol pellach ar gyfer staff.
6. Mae ein cynigion yn canolbwyntio, i ddechrau, ar ddarpariaeth gofal preswyl preifat i blant, ochr yn ochr â gofal maeth yn y sector annibynnol.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

7. Mae adran 75 o [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) ('Deddf 2014') yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o lety i ddiwallu anghenion eu poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Mae adran 81 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod lleoliadau'n cael eu gwneud o fewn eu hardal eu hunain oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny. Mae Cod Ymarfer [Rhan 6 \(Plant sy'n Derbyng Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya\)](#) yn dweud bod rhaid i awdurdodau lleol ystyried manteision bod â nifer o ddarparwyr, gan gynnig amrywiaeth o lety i ddiwallu anghenion gwahanol.
8. Mae awdurdodau lleol yn trefnu gwahanol leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal:
 - Gyda pherthynas
 - Gyda rhieni maeth
 - Mewn cartref gofal i blant
 - Mewn lleoliadau preswyl eraill megis llety â chymorth, ysgol neu, mewn nifer bach o achosion, uned ddiogel
 - Gyda darpar fabwysiadwr (o dan amgylchiadau penodol)
9. Ar hyn o bryd, caiff lleoliadau eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdod lleol, drwy ei wasanaethau mewnol, neu gan ddarparwyr annibynnol yn y sector preifat a'r trydydd sector. Yng Nghymru, o dan [Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#), mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu gofrestru â Gweinidogion Cymru (yn ymarferol, Arolygiaeth Gofal Cymru).
10. Mae data a gyhoeddwyd ar StatsCymru yn dangos bod nifer y plant mewn gofal yng Nghymru wedi cynyddu'n gyson dros y degawd diwethaf. Ym mis Mawrth 2021, yng Nghymru roedd y gyfradd yn 115.3 o bob 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed¹, o gymharu â 67 o bob 10,000 o'r boblogaeth yn Lloegr.²
11. Ym Mawrth 2021, roedd tua 5,070³ o blant sy'n derbyn gofal yn byw gyda theulu maeth (trefniadau cyhoeddus a phreifat). Mae tua un o bob tri o'r lleoliadau hyn gydag Asiantaeth Annibynnol.

¹ Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol: Ebrill 2020 i Fawrth 2021 | LLYW.CYMRU

² Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr gan gynnwys mabwysiadu, Blwyddyn Adrodd 2021 – Archwilio ystadegau addysg – GOV.UK (explore-education-statistics.service.gov.uk)

³ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-placementtype>

12. Ym mis Gorffennaf 2022, roedd tua 1,068 o leoedd preswyl ar gael, 85% ohonynt gyda darparwyr annibynnol⁴.
13. Er ein bod yn cydnabod bod lleoliadau i ffwrdd o gymunedau cartref yn angenrheidiol weithiau er lles y plentyn, mae angen ystyried yn ofalus fanteision ac effeithiau posibl defnyddio lleoliadau o'r fath yn ehangach. Ble bynnag y bo modd, mae Llywodraeth Cymru am weld lleoliadau'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc a fydd yn cadw eu cysylltiadau â'u cymdogaethau a'u cymunedau lleol ac yn caniatáu cymaint o gysondeb yn eu bywydau â phosibl.
14. Bydd amgylchiadau plant a phobl ifanc yn wahanol yn ôl eu hanghenion a'u hamgylchiadau teuluol unigol. Gall lleoliadau fod yn rhai tymor byr, tymor hir neu barhaol. Felly, mae angen i wasanaethau maethu a chartrefi gofal ledled Cymru fod yn hyblyg i ddiwallu'r anghenion a'r amgylchiadau amrywiol hyn.
15. Mae'r duedd hirdymor o gynyddu'r defnydd o ofal, ynghyd ag anghenion mwy cymhleth, wedi cyflwyno heriau sylweddol i awdurdodau lleol ac wedi cael effaith ar blant a phobl ifanc eu hunain. Mae lleoliadau sefydlog yn hanfodol er mwyn sicrhau ymdeimlad o berthyn a diogelwch. Mae tystiolaeth gref bod paru plant â lleoliadau priodol ar draws yr ystod o opsiynau, megis maethu a chartrefi gofal, yn mynd yn fwy heriol. Weithiau, mae'n anodd i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau digonolrwydd a dod o hyd i leoliadau addas sy'n diwallu anghenion unigolion. Gall hyn effeithio'n negyddol ar y dewis o leoliadau a pha mor barhaol a sefydlog ydynt ac, yn y pen draw, ar ganlyniadau plant a phobl ifanc. Mae wedi arwain at gynydd yn y defnydd o ddarparwyr sector preifat i ateb y galw am leoliadau.
16. Mae dros 80% o gartrefi gofal i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan y sector preifat. Ym mis Gorffennaf 2022, roedd yna 223 o wasanaethau cartrefi gofal i blant yn y sector preifat, gan ddarparu cyfanswm o 908 o leoedd, a 37 o wasanaethau cyhoeddus neu nid-er-elw, gan ddarparu 160 o leoedd⁵. Mae hyn yn dangos dibyniaeth drom ar y sector preifat. Yn wir, mae yna naw awdurdod lleol yng Nghymru yn llwyr ddibynnol ar y sector preifat i ddarparu cartrefi gofal i blant. Yn nes ymlaen yn y bennod hon, rydym yn trafod y materion a allai godi yn sgil hyn o ran lefelau elw a fyddai'n cael ei gymryd allan o'r gofal hwn.
17. O ran gofal maeth, mae yna 46 o wasanaethau maethu yng Nghymru (y sector cyhoeddus a'r sector preifat), 24 ohonynt yn cael eu darparu gan y sectorau preifat, annibynnol a gwirfoddol a 22 gan awdurdodau lleol.

⁴ Dadansoddiad pwrpasol, data Arolygiaeth Gofal Cymru

⁵ Dadansoddiad pwrpasol, data Arolygiaeth Gofal Cymru

18. Mae'r anghydbwysedd hwn o ran darpariaeth ac arian sy'n cael ei gymryd allan fel elw wedi codi pryderon ynghylch canlyniadau niweidiol i blant a phobl ifanc. Ceir crynodeb o'r prif faterion isod.

Cystadleuaeth: gan fod y galw yn fwy na'r cyflenwad, marchnad gwerthwr yw cartrefi gofal plant ac mae hyn yn effeithio ar y prisiau sy'n cael eu codi ar awdurdodau lleol. Mae argaeledd lleoliadau a dewis o leoliadau sydd wirioneddol yn diwallu anghenion plant 11 oed a throsodd ag anghenion cymhleth yn arbennig o anodd. Mae adroddiad diweddar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)⁶ yn trafod costau lleoliadau a lefelau elw a sut y gall y rhain gael eu chwyddo lle mae angen lleoliadau yn aml o dan bwysau amser sylweddol. Mae adroddiad y CMA yn dangos bod lefel yr elw sy'n cael ei dynnu allan o'r gwasanaethau hyn mewn rhai ardaloedd yn fwy nag 20% ar gyfer gofal preswyl plant ac yn agos at yr un lefel ym maes maethu annibynnol. Dyma arian sy'n cael ei dynnu allan o wasanaethau plant a allai gael ei ailgyfeirio i wella gwasanaethau, capasiti a chanlyniadau.

Argaeledd: ledled Cymru nid oes cyflenwad digonol o leoliadau maeth i ddiwallu anghenion eang ein poblogaeth plant sy'n derbyn gofal.

Cystadleuaeth ymhlith darparwyr gofal maeth: oherwydd natur y farchnad gofal maeth, mae darparwyr gofal maeth yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd ac yn cystadlu ag awdurdodau lleol o ran recriwtio gofalwyr maeth, mewn marchnad gyffredinol lle mae awdurdodau lleol yn wynebu prinder gofalwyr maeth.

Symud lleoliad: mae sefydlogrwydd lleoliad i blant a phobl ifanc yn helpu i sicrhau'r amgylchedd a'r cyfle gorau posibl iddynt adfer, datblygu, ffynnu a gwneud cynnydd. Mae datblygu ac ehangu'r dewis o opsiynau lleoliad o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion eang a chymhleth plant orau yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael y lleoliad cywir ar ddechrau ei daith.

19. Mae dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn un o nifer o fesurau yr ydym yn eu rhoi ar waith drwy ein Rhaglen Lywodraethu. Rydym am ddarparu'r math cywir o ofal ar gyfer pob plentyn: lleihau nifer y plant mewn gofal drwy eu cefnogi'n well i aros gyda'u teuluoedd; diwygio a chydgyssylltu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal; a darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant sydd ag anghenion cymhleth, gan roi cymorth gwell i'r rhai sy'n gofalu am y plant hyn.

⁶ <https://www.gov.uk/government/news/cma-outlines-concerns-on-availability-and-price-of-children-s-care>

Pam rydym yn cynnig newid deddfwriaethol?

20. Bydd deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi sail statudol i'r bwriad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal er mwyn datblygu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol; sy'n gwella profiad pobl ifanc o ofal ac sy'n galluogi buddsoddi pellach mewn gwasanaethau o'r fath.

Beth rydym yn ei gynnig?

21. Ers hydref 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Rhaglen Dileu Elw o Ofal Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n cynnwys sawl asiantaeth ac sydd ag aelodau sy'n gynrychiadol o'r sector, ynghyd â chefnogi ffrydiau gwaith, i ystyried a datblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth i helpu i gyflawni'r ymrwymiad. Nod y Bwrdd yw datblygu a chynyddu ein darpariaeth gyhoeddus ac nid-er-elw o ofal plant sy'n derbyn gofal a gwella canlyniadau i blant, gan roi eu buddiannau a'u hawliau wrth wraidd penderfyniadau a wneir a'r gwasanaethau a'r cymorth sy'n dilyn.
22. Rydym yn cynnig cynnwys y canlynol mewn deddfwriaeth er mwyn rhoi sail statudol briodol i'r agenda hon:

a) Diffiniad o 'nid-er-elw' ar gyfer gofal plant sy'n derbyn gofal

23. Rydym yn cynnig cynnwys diffiniad o 'nid-er-elw' a fydd yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal'.
24. Fel rhan o hyn, credwn y dylai Gweinidogion Cymru allu diwygio'r diffiniad drwy is-ddeddfwriaeth, i adlewyrchu datblygiadau yn y gyfraith ac mewn arferion yn amserol ac yn effeithlon.

b) Sicrhau bod elw preifat yn cael ei ddileu drwy ddarpariaeth sy'n caniatáu i ddarparwyr 'nid-er-elw' yn unig gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru

25. Rydym yn cynnig defnyddio prosesau cofrestru darparwyr gwasanaethau yng Nghymru i helpu i gyflawni'r ymrwymiad. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n caniatáu i ddarparwyr nid-er-elw yn unig gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Byddai hyn yn golygu na fyddai darparwyr

gwasanaethau cartrefi gofal i blant neu wasanaethau maethu 'er elw' yn cael gweithredu yng Nghymru ar ôl gweithredu'r cynnig yn llawn.

c) Amserlenni a Chyfnod Pontio

26. Mae gwaith yn mynd rhagddo i:

- Helpu awdurdodau lleol i fodelu a rhag-weld yn well ofynion ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau nifer y plant mewn gofal
- Cefnogi sefydliadau nid-er-elw presennol sydd am ehangu eu darpariaeth
- Annog creu darpariaeth nid-er-elw newydd
- Cefnogi darparwyr preifat sydd am drosglwyddo i fodelau gofal nid-er-elw.

27. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen amserlenni clir ar gyfer gweithredu'r polisi hwn i alluogi darparwyr i gynllunio ar gyfer ei gyflwyno, gan gynnwys cyfnod pontio clir. Felly, byddai Gweinidogion Cymru yn mynd ati i ddod ag unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol i rym fel y bydd:

- Rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fod â statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen
- Angen i unrhyw ddarparwyr 'er elw' presennol bontio i statws nid-er-elw, a chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, erbyn 1 Ebrill 2027

d) Canllawiau Ategol

28. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig defnyddio pŵer i ddarparu canllawiau i helpu i weithredu'r newidiadau deddfwriaethol i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal, megis cyfeirio at fodelau sefydliadol priodol neu eu disgrifio. Bydd y canllawiau hyn o **gymorth** i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i randdeiliaid wrth inni roi'r newidiadau ar waith.

e) Meysydd ychwanegol yr hoffem eich barn arnynt

29. Mae dau faes pellach yr hoffem glywed eich barn arnynt drwy'r broses ymgynghori hon.

- (i) Ochr yn ochr â'r cynnig i gyfyngu ar gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru i sefydliadau nid-er-elw yn unig, mae potensial i ategu hynny drwy ddeddfwriaeth i fynd i'r afael ag arferion comisiynu. Byddai hyn yn golygu rhoi cyfyngiad ar awdurdodau lleol i gomisiynu lleoliadau gofal i blant a phobl ifanc gan sefydliadau nid-er-elw yn unig. Rydym yn gwahodd barn rhanddeiliaid ar ddull gweithredu o'r fath ac ar yr amserlenni priodol pe bai'n cael ei roi ar waith.
- (ii) Wrth amlinellu eu polisi bod gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu yn cael eu darparu ar sail nid-er-elw yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru am sicrhau nad yw'r polisi'n cael ei danseilio gan arferion sy'n mynd yn groes i'w ysbryd a'i fwriad, gan felly drechu pwrpas ein newidiadau deddfwriaethol i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal plant yng Nghymru. Un enghraifft bosibl fyddai rhiant-gwmnïau gwasanaethau nid-er-elw yn codi ffioedd gormodol, a allai fod yn gyfystyr â chymryd elw allan mewn ffyrdd eraill. Rydym yn gwahodd barn rhanddeiliaid ar y mater hwn a pha gamau, boed drwy drefniadau comisiynu neu fel arall, y gellid eu cymryd i fynd i'r afael ag ef.

Pa ganlyniadau rydym yn eu disgwyl?

- 30. Rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau a gyflwynir drwy'r ddeddfwriaeth, yng nghyd-destun y gwaith ehangach rydym yn ei roi ar waith drwy ein rhaglen, yn cael effaith gadarnhaol ar y profiad o fyw mewn gofal yng Nghymru. Bydd yn hyrwyddo datblygu gwasanaethau lleol sy'n atebol yn lleol. Bydd yn ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol o blaid darpariaeth gofal gan y sector cyhoeddus a sefydliadau nid-er-elw a bydd yn creu sylfaen fwy o ran darparwyr ac yn sicrhau gwerth cymdeithasol gwell. Bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar yr hyn sydd ei angen yn hytrach na'r hyn sy'n broffidiol. Bydd y newidiadau yn helpu yn benodol i ddatblygu dull seiliedig ar werth cymdeithasol wrth gomisiynu a chaffael lleoliadau, a fydd yn cynnwys datblygu darpariaeth nid-er-elw, gan helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf 2014.
- 31. Bydd ailgydbwyso'r sector gofal a chymorth i blant sy'n derbyn gofal mewn ffordd sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer poblogaethau lleol ledled Cymru yn hyrwyddo nod Deddf 2014 bod pob unigolyn sydd angen gofal a chymorth yn cael mynediad at y gwasanaethau sydd ei angen arno i gyflawni ei nodau llesiant. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol ar gyfer **Cymru sy'n fwy cyfartal**).
- 32. Drwy'r gwaith hwn bydd mwy o gyfle i ailfuddsoddi cyllid mewn darpariaeth gofal gan y sector cyhoeddus a sefydliadau nid-er-elw, gan gynnwys cefnogi

tâl ac amodau gwell, cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a llwybrau gyrfa gwell i staff. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at ofal gwell i blant a phobl ifanc.

33. Gan mai amcan cyffredinol yr ymrwymiad yw ailgydbwysu'r farchnad o blaid darpariaeth gyhoeddus neu nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'n anochel y bydd hyn yn effeithio ar y sector hwn a'i ddarparwyr, ond hefyd ar ddarparwyr yn y sector preifat. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fapio proffil presennol darpariaeth gofal preswyl a maeth ledled Cymru, ochr yn ochr â modelu a rhag-weld gofynion lleoliadau yn y dyfodol, i lywio ein cynlluniau ar gyfer pontio i system nid-er-elw sy'n gallu diwallu anghenion pob plentyn mewn gofal.
34. Rydym yn cefnogi ac yn gweithio gyda sefydliadau nid-er-elw presennol sydd am ehangu eu darpariaeth ac rydym yn awyddus i annog creu darpariaeth nid-er-elw newydd yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n ddarparwyr preifat i gefnogi'r rhai sydd am drosglwyddo i fodolau gofal nid-er-elw. Yn y pen draw, bydd effaith anffafriol ar wasanaethau gofal plant preifat nad ydynt yn trosglwyddo i fodol gofal nid-er-elw oherwydd bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn rhai nid-er-elw. Felly, ni fydd sefydliadau preifat yn gallu cynnig y gwasanaethau hyn yng Nghymru.
35. Bydd y newidiadau'n helpu i ddatblygu dulliau integredig ymhellach wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth i blant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn gweld dulliau mwy arloesol a chydweithredol, fel y rhai sydd eisoes ar y gweill ar gyfer datblygu llety preswyl rhanbarthol i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r mathau hyn o ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid sicrhau darpariaeth fwy cyfannol o ofal a chymorth, er mwyn diwallu'r ystod o anghenion sydd gan blant o ran iechyd, gofal cymdeithasol a lles. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru iachach).
36. Mae'n destun pryder pan fo plant yn cael eu lletya ymhell o gartref gan nad oes digon o leoliadau ar gael yn lleol ar gyfer plant Cymru. Ar y llaw arall, mae lleoliadau preifat sydd ar gael yn lleol yn aml yn lletya plant sy'n bell iawn o'u cartrefi eu hunain. Bydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno drwy'r ddeddfwriaeth hon yn cefnogi rhaglen ehangach Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau plant, gan ganolbwyntio'n glir ar gadw plant yn nes at eu cartrefi, eu teuluoedd a'u cymunedau.
37. Bydd yna fanteision posibl o ran darpariaeth Gymraeg, gan y bydd rhaid i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd gofal a chymorth a ddarperir ar gyfer y

lleoliadau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Y gobaith yw y bydd hyn yn ysgogi cynnydd mewn darpariaeth newydd i ddiwallu'r angen a'r galw. (Bydd hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n fwy cyfartal).

38. Byddwn yn deddfu i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn ffordd ofalus, ystyriol a graddol.

39. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, fodd bynnag, mae croeso i'ch barn ar fanteision, anfanteision, costau ac arbedion y cynnig, ynghyd â'i effeithiau ar gydraddoldeb a'i effeithiau ar y Gymraeg.

Cwestiynau ar gyfer pennod 1

Cwestiwn 1.1: Ydych chi'n credu y bydd cyflwyno darpariaeth mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i ddarparwyr 'nid-er-elw' yn unig gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal?

Cwestiwn 1.2: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynnig? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:

- Manteision ac anfanteision;
- Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;
- Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;
- Materion ymarferol eraill megis materion trawsffiniol.

Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol.

Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 1.3: Un ffordd bosibl o fynd ati yw i'r ddeddfwriaeth ddiffinio 'nid-er-elw' o ran y mathau o sefydliadau a fyddai'n gymwys. Ydych chi'n ystyried y dylid hefyd gyfyngu ar y ffordd y mae unrhyw arian masnachu dros ben yn cael ei wario? Beth fyddai effeithiau a goblygiadau hyn?

Cwestiwn 1.4: Ydych chi'n credu y dylai'r ddeddfwriaeth sylfaenol gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o 'nid-er-elw' drwy is-ddeddfwriaeth?

Cwestiwn 1.5: Beth yw eich barn chi ar yr amseriadau sy'n cael eu cynnig o ran pryd y byddai'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn cael effaith?

Cwestiwn 1.6: A oes yna unrhyw faterion yr hoffech dynnu ein sylw atynt mewn perthynas â'r broses bontio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau?

Cwestiwn 1.7: Beth yw eich barn chi ar gyhoeddi canllawiau i helpu i weithredu'r ddeddfwriaeth sylfaenol?

Cwestiwn 1.8: Beth yw eich barn chi ar ddefnyddio deddfwriaeth i osod cyfyngiad ar awdurdodau lleol i gomisiynu lleoliadau gan sefydliadau 'nid-er-elw' yn unig? Yn benodol:

- Ydych chi'n meddwl y byddai'n ein helpu i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru?

- Beth fyddai manteision, anfanteision a goblygiadau eraill dull o'r fath?

- Beth fyddai'n amserlen briodol ar gyfer gweithredu dull o'r fath, pe bai'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru?

Cwestiwn 1.9: Beth yw eich barn chi ar weithgareddau posibl a wneir mewn ymateb i'r cynigion deddfwriaethol hyn a fyddai'n tansilio'r bwriad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru? Oes yna unrhyw gamau a fyddai'n gwarchod rhag gweithgareddau o'r fath?

Cwestiwn 1.10: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau deddfwriaethol er mwyn dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 1.11: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r newidiadau deddfwriaethol i helpu i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 1.12: Mae'r bennod hon wedi canolbwyntio ar sut y gallwn gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, ac rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Pennod 2: Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

1. Drwy weithredu [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) ('Deddf 2014') mae Gweinidogion Cymru wedi ceisio rhoi fframwaith ar waith sy'n grymuso pobl i gael mwy o gyfranogiad a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth a gânt. Mae hyn yn ffactor pwysig o ran sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda nhw ac iddyn nhw, ac mewn llawer o achosion bod pobl yn cael y cyfle i geisio trefniadau pwrpasol yn uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion unigol.
2. Un ffordd o ddarparu llais a rheolaeth dros wasanaethau yw drwy daliadau uniongyrchol. Symiau ariannol yw taliadau uniongyrchol sydd ar gael gan awdurdodau lleol o dan adrannau 50 a 53 o Ddeddf 2014, ac sy'n cael eu talu i berson neu ei gynrychiolydd, er mwyn ei alluogi i ddiwallu ei anghenion cymwys am ofal a chymorth, neu ei anghenion cymorth yn achos gofalwr. Mae taliadau uniongyrchol yn fodd i ganiatáu i bobl arfer llais a rheolaeth; hynny yw, penderfynu sut, pryd a chan bwy y mae eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu.
3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar ein cynnig i estyn yr hyblygrwydd hwn i gael taliadau uniongyrchol i oedolion sy'n gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

4. Mae gofal iechyd, a ddarperir gan y GIG, yn rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen a phan fydd yr angen hwnnw yn drech nag anghenion gofal eraill gall person fod yn gymwys i gael pecyn Gofal Iechyd Parhaus. Dim ond pan fydd anghenion y person yn cael eu hystyried yn addas y darperir hyn, ac mae'n cael ei ailasesu'n rheolaidd. Yn yr achosion hyn, mae'r anghenion iechyd a gofal eraill yn cael eu diwallu'n gyfan gwbl gan y GIG, yn ddi-dâl, yn unol â'u dyletswyddau o dan [Ddeddf GIG \(Cymru\) 2006](#) ('Deddf 2006'). Ar hyn o bryd, ni all person sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus dderbyn taliadau uniongyrchol i'w alluogi i wneud trefniadau i ddiwallu'r anghenion hynny.
5. Os asesir bod person sydd wedi bod yn derbyn taliadau uniongyrchol gan awdurdod lleol yn gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus ond ei fod yn gwrthod manteisio ar yr hawl honno, ni fydd hyn o reidrwydd yn golygu y

bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth (gan gynnwys drwy daliadau uniongyrchol). Nid yw awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu'r anghenion am ofal a chymorth y gellir eu darparu drwy ddulliau eraill (yn yr achos hwn, Gofal Iechyd Parhaus). At hynny, mae adran 47 o Ddeddf 2014 yn nodi cyfyngiadau ar bŵer awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau y mae'n ofynnol eu darparu o dan ddeddfiad arall, megis Deddf 2006.

6. Dros nifer o flynyddoedd, mae pryderon wedi eu codi bod trosglwyddo o daliadau uniongyrchol awdurdodau lleol am ofal a chymorth i becyn Gofal Iechyd Parhaus, wedi'i drefnu gan y GIG i ddiwallu'r holl anghenion iechyd a gofal, yn peryglu rheolaeth pobl dros eu trefniadau gofal. Mae rhai pobl sydd â chyflyrau iechyd cymhleth yn dewis gwrthod asesiadau ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus neu'n gwrthod derbyn pecynnau Gofal Iechyd Parhaus. Ymhlith y rhesymau dros hyn y mae peidio â bod eisiau colli'r hyblygrwydd sydd ganddynt drwy daliadau uniongyrchol, gan y gallai hyn dorri ar draws eu trefniadau presennol ar gyfer gofal; pryderon am effaith hyn ar fudd-daliadau a chymorth arall maent yn eu cael; a'r newid yn cyfrannu at lai o ymdeimlad o annibyniaeth.

Pam rydym yn cynnig newid deddfwriaethol?

7. Mae [Rhaglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru yn nodi ymrwymiad i '*Wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a Thaliadau Uniongyrchol*'. Mae gweithgor – y mae ei aelodaeth yn cynnwys pobl anabl a rhai sydd â phrofiad bywyd o daliadau uniongyrchol/Gofal Iechyd Parhaus, byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, grwpiau trydydd sector a sefydliadau anabledd – wedi'i sefydlu i helpu i weithredu'r ymrwymiad hwn ac i ystyried opsiynau ar gyfer gwella ymhellach, gan gynnwys defnyddio deddfwriaeth.
8. Ym mis Ebrill 2022, daeth [fframwaith cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG](#), ar gyfer oedolion, yn weithredol. Mae'r fframwaith yn cryfhau'r geiriad ynghylch llais a rheolaeth. Pan fo person y trefnwyd ei ofal drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn dod yn gymwys i gael cyllid Gofal Iechyd Parhaus, mae'r fframwaith yn nodi bod rhaid i fwrdd iechyd lleol weithio gydag ef gyda'r bwriad o gydgyhyrchu a gwneud pob ymdrech i gynnal parhad y personél sy'n darparu'r gofal, pan fo'r person hwnnw yn dymuno hynny a phan all hynny gyfrannu at ddiwallu ei anghenion.
9. Mae'r fframwaith cenedlaethol yn dweud y dylai byrddau iechyd lleol, wrth wneud hynny, ystyried ystod o opsiynau. Byddai'r rhain yn cynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflogi staff (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth), ee cynorthwywyr personol, a oedd yn cael eu cyflogi gan yr unigolyn o dan

daliadau uniongyrchol yn flaenorol; neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn darparu cyllid i Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol i reoli gofal y person (sef pan fo perthynas i'r person neu barti arall sydd â diddordeb yn sefydlu ymddiriedolaeth sy'n dod yn ddarparwr gofal i'r unigolyn). Mae canllawiau atodol i gefnogi defnyddio'r opsiynau hyn yn cael eu llunio ar y cyd â'r gweithgor.

10. Er bod y mecanweithiau a gyflwynwyd yn y fframwaith cenedlaethol – a ganiateir yn y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd – yn gwneud rhywfaint o'r gwaith i gryfhau llais a rheolaeth ar gyfer oedolion, rydym yn cydnabod efallai na fyddant yn sicrhau'r un faint o hyblygrwydd a rheolaeth uniongyrchol i bobl fel y byddai'n digwydd pe bai byrddau iechyd lleol yn cael darparu taliadau uniongyrchol iddynt wneud trefniadau i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Byddai hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol.
11. Yn Lloegr, gwnaed y newid hwn drwy [ddiwygiadau i Ddeddf GIG 2006](#), ac o ganlyniad, caniateir taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, drwy Gyllidebau Iechyd Personol ers 2014. Gellir defnyddio Cyllidebau Iechyd Personol i ddiwallu anghenion person fel y nodir yn ei gynllun gofal ac maent ar gael ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus oedolion a phlant. Yn ogystal gellir eu darparu at ddibenion eraill, gan gynnwys gofal mamolaeth a chadeiriau olwyn.
12. Mae tri math o Gyllideb Iechyd Personol:
 - cyllideb dybiannol lle mae'r arian yn cael ei ddal gan y GIG sy'n trefnu unrhyw ofal y cytunwyd arno
 - cyllideb trydydd parti lle mae sefydliad neu ymddiriedolaeth yn dal yr arian i unigolyn ac yn ei reoli ar ei ran
 - taliadau uniongyrchol, lle mae'r arian yn cael ei ddal a'i weinyddu'n uniongyrchol gan yr unigolyn. Fodd bynnag, mae nifer o eithriadau, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau meddygol sylfaenol a chyffredinol, cyffuriau, meddyginiaethau, offer, ffioedd deintyddol, llawdriniaethau wedi'u cynllunio, brechu, NHS Health Checks, alcohol, tybaco a gwasanaethau gamblo.
13. Yng Nghymru, rydym yn ystyried, gyda'n gweithgor, newid y gyfraith i alluogi byrddau iechyd lleol i ddarparu taliadau uniongyrchol i oedolion ddiwallu eu hanghenion Gofal Iechyd Parhaus cymwys. Byddai hyn yn ategu ac yn adeiladu ar y mecanweithiau a gyflwynwyd yn y fframwaith cenedlaethol megis byrddau iechyd lleol yn cyflogi personél neu'n gwneud taliadau i Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol. Ein bwriad fyddai gwella cymorth ar gyfer oedolion anabl a difrifol sâl i gynnal eu hannibyniaeth, yn ogystal â

hyrwyddo egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a llais a rheolaeth; ac yn cyd-fynd yn agosach â'r model cymdeithasol o anabledd.

Beth rydym yn ei gynnig?

14. Er mwyn cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus i oedolion, rydym yn bwriadu diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006, i gynnwys:

- pŵer i fyrddau iechyd lleol wneud taliadau uniongyrchol i oedolion (neu eu cynrychiolydd) y mae penderfyniad wedi'i wneud yn eu cylch sy'n golygu eu bod yn gymwys ar gyfer gofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG. Byddai rhoi'r pŵer hwn i fyrddau iechyd yn caniatáu iddyn nhw wneud taliadau uniongyrchol i bobl ar gyfer eu Gofal Iechyd Parhaus, pan fo'r person yn dymuno cael y taliadau hyn. Yna byddai pobl yn gallu prynu gofal iechyd a gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion orau.
- pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch taliadau uniongyrchol. Byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion ragnodi materion pellach gan gynnwys ar gyfer pa fath o ofal iechyd y gellir gwneud taliadau uniongyrchol, eithriadau a gwaharddiadau a sut y bydd y cynllun yn gweithredu. Byddai hyn yn ein galluogi i deilwra'r dull gorau ar gyfer Cymru, o bosibl gyda chanllawiau atodol i gefnogi gweithredu.
- pŵer i fyrddau iechyd lleol wneud trefniadau i roi cymorth i bersonau neu gyrff mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol. Byddai'r rhain yn debyg i'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cymorth i bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Pa ganlyniadau rydym yn eu disgwyl?

15. Heb os, byddai galluogi mwy o lais a rheolaeth i oedolion drwy ganiatáu taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, yn cael yr effaith fwyaf ar dderbynwyr gwasanaethau eu hunain. Drwy symud tuag at ddarpariaeth fwy integredig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, byddem yn datblygu egwyddorion 'Llais, Dewis a Rheolaeth' sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf 2014 ac yn sicrhau bod egwyddorion craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn cael eu gwreiddio ymhellach o ran darparu gwasanaethau ledled Cymru.

16. Rydym yn ceisio hyrwyddo tegwch a pharhad i unigolion, i sicrhau bod eu llais a'u rheolaeth yn parhau, boed eu hawl i ofal/gofal iechyd gan awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol. Gallai hyn arwain at ganlyniadau iechyd gwell, er enghraifft, os bydd mwy o unigolion yn cytuno i gael asesiadau Gofal Iechyd

Parhaus, heb ofni colli eu taliadau uniongyrchol, bydd hyn yn eu galluogi i reoli eu hanghenion iechyd cymhleth yn well.

17. Rhagwelir y bydd y cynigion hyn yn esgor ar ffyrdd newydd o ddarparu gofal, gan leihau straen ar wasanaethau gofal cartref a chydabod yn well y rhan y mae gofalmwyr di-dâl yn ei chwarae. Mae gennym gyfle i ddysgu o fesurau a chanllawiau sydd ar waith ar gyfer Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr a gwerthusiadau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yno, er mwyn teilwra ateb sy'n gweddu i'r cyd-destun yng Nghymru; un sy'n cefnogi oedolion i arfer llais a rheolaeth ar draws y rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol hwn.
18. Rydym yn cydnabod y gallai fod nifer o faterion i'w datrys a phryderon i'w rheoli wrth drosglwyddo i'r defnydd o daliadau uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys mewn meysydd megis adnoddau, prosesau a llywodraethu. Fodd bynnag, gellid defnyddio rheoliadau a chanllawiau i nodi, yn benodol, yr hyn y gellir ac na ellir ei gynnwys o dan daliadau uniongyrchol, yn ogystal â mesurau i sicrhau priodoldeb clinigol ac ariannol, a thrwy hynny leihau risgiau a mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.
19. Byddwn ni hefyd yn gweithio i sicrhau bod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu cefnogi gan ganllawiau cadarn i helpu'r rhai sy'n derbyn taliadau ac ymarferwyr i ddeall sut y bydd y system yn gweithredu. Bydd canllawiau o'r fath yn cael eu llunio ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau, y rhai sydd â phrofiad bywyd o daliadau uniongyrchol/Gofal Iechyd Parhaus, ymarferwyr a darparwyr, gan gryfhau gwaith mewn partneriaeth a sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n cael eu hystyried. Byddwn yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i sicrhau bod hyfforddiant a sicrwydd priodol yn cael eu darparu i staff, wrth wneud penderfyniadau a gweinyddu unrhyw system daliadau.
20. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, fodd bynnag, mae croeso i'ch barn ar fanteision, anfanteision, costau ac arbedion y cynnig, ynghyd â'i effeithiau ar gydraddoldeb a'i effeithiau ar y Gymraeg.

Cwestiynau ar gyfer pennod 2

Cwestiwn 2.1: Rydym ni wedi amlinellu ein cynigion i gyflwyno llais a rheolaeth bellach i oedolion sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion hyn? Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 2.2: Beth yn eich barn chi yw effeithiau tebygol y cynnig?

Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:

- Manteision, ac anfanteision;
- Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;
- Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;
- Materion ymarferol eraill megis materion trawsffiniol neu drosglwyddo i'r trefniadau newydd.

Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol.

Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 2.3: Pa wersi y gallwn ni eu dysgu o arfer gwledydd eraill yn y maes hwn?

Cwestiwn 2.4: Ydych chi'n credu bod unrhyw ddulliau eraill neu ddulliau ategol y dylen ni fod yn eu hystyried i gyflawni'r un effaith? Os felly, nodwch nhw isod.

Cwestiwn 2.5: Byddwn yn gweithio i sicrhau bod unrhyw newid deddfwriaethol yn cael ei gefnogi gan ganllawiau cadarn i helpu'r rhai sy'n derbyn taliadau ac ymarferwyr i ddeall sut y bydd y system yn gweithredu. Allwch chi nodi unrhyw beth y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys yn y canllawiau hyn? Pa gymorth arall y dylid ei ddarparu?

Cwestiwn 2.6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 2.7: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai ein cynigion ar gyfer cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai

ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 2.8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Pennod 3: Hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

1. Sefydlwyd yr [Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#) (yr Ymchwiliad) yn 2015, o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005, i ymchwilio i'r graddau y mae sefydliadau perthnasol – cyrff cyhoeddus ac eraill – yng Nghymru a Lloegr wedi methu yn eu dyletswydd gofal i amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol a cham-fanteisio. Mae hefyd yn ystyried i ba raddau yr aed i'r afael â methiannau ers hynny; yn nodi unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r methiannau hynny; ac yn gwneud argymhellion ehangach am sut y gellir amddiffyn plant yn well rhag cam-drin rhywiol a chamfanteisio yn y dyfodol.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n llawn â'r Ymchwiliad ac wedi ymateb i nifer o'i 15 o ymchwiliadau, gan ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar pan ofynnwyd iddi wneud hynny; cymryd rhan mewn gwrandawladau cyhoeddus; a chymryd rhan mewn seminarau ar feysydd o ddiddordeb arbennig. Mae disgwyl i'r Ymchwiliad gyhoeddi ei adroddiad ac argymhellion yn ddiweddarach eleni.
3. Yn ystod yr Ymchwiliad, bu trafodaeth sylweddol ar ddyletswyddau hysbysu gorfodol (y cyfeirir atynt hefyd fel 'dyletswydd i hysbysu) – pan fo gofyniad cyfreithiol i hysbysu gwybodaeth neu amheuan am niwed (e.e. cam-drin neu esgeulustod) i awdurdod dynodedig. Yn benodol, ystyriwyd a ddylid gosod dyletswyddau hysbysu o'r fath yn uniongyrchol ar unigolion, er budd amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

4. Dyletswydd sefydliadol yw'r ddyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg yng Nghymru, a nodir yn adran 130 o [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) ('Deddf 2014'). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i 'bartneriaid perthnasol' awdurdod lleol, a thimau troseddau ieuenctid, hysbysu'r awdurdod hwnnw os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod plentyn yn ei ardal yn profi neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef fathau eraill o niwed ac mae gan y plentyn anghenion am ofal a chymorth⁷. Os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod arall, rhaid i'r partner

⁷ Mae adran 130(4) o Ddeddf 2014 yn diffinio 'plentyn sy'n wynebu risg' fel plentyn sy'n cael neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio)

perthnasol hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw. Rhaid i awdurdodau lleol Cymru hefyd hysbysu awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, neu Lloegr, os yw plentyn y maen nhw'n credu ei fod yn wynebu risg yn ei ardal a'i fod yn byw neu'n bwriadu byw yn yr ardal awdurdod lleol arall.

5. Mae 'partner perthnasol', fel y'i diffinnir yn adran 162 o Ddeddf 2014, yn cynnwys yr heddlu, gwasanaethau prawf, bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth y GIG, Gweinidogion Cymru neu Ysgrifennydd Gwladol (wrth gyflawni rhai swyddogaethau) ac awdurdodau lleol eraill. Mae gwybodaeth a'r Canllaw Ymarfer Ategol ar y ddyletswydd bresennol i hysbysu wedi'u cynnwys yn [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg](#). Mae hwn i'w ddarllen ochr yn ochr â [Chyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg](#).
6. Mae gennym hefyd ddyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru, a nodir yn adran 128 o Ddeddf 2014. Fel y ddyletswydd mewn perthynas â phlant, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i 'bartneriaid perthnasol' awdurdod lleol hysbysu'r awdurdod hwnnw os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod oedolyn yn ei ardal yn wynebu risg⁸. Os yw'r oedolyn sy'n wynebu risg mewn ardal awdurdod lleol arall, rhaid i'r partner perthnasol hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw. Mae adran 128 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru hysbysu awdurdod lleol arall, yng Nghymru neu yn Lloegr, os yw'r oedolyn y mae'n credu ei fod yn wynebu risg yn ei ardal a'i fod yn byw neu'n bwriadu byw yn yr ardal awdurdod lleol arall.
7. Yn unol â nodau [Cymru o blaid Pobl Hŷn: Ein strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio](#), a'r gwaith sy'n mynd rhagddo – gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a phartneriaid allweddol eraill – i ddatblygu [Cynllun Gweithredu drafft i Roi Diwedd ar Gam-drin ac Esgeuluso Pobl Hŷn yng Nghymru](#), credwn y dylai unrhyw ystyriaeth o ddyletswyddau hysbysu gorfodol gynnwys plant ac oedolion, fel ei gilydd. Byddai hyn yn adlewyrchu'r ffocws sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sefydlwyd yn Neddf 2014.
8. Mae gan nifer o awdurdodaethau ledled y byd ddeddfau hysbysu gorfodol o ryw fath sy'n gosod dyletswyddau'n uniongyrchol ar unigolion – yn gyffredinol ar weithwyr proffesiynol penodedig, er mewn rhai gwledydd/awdurdodaethau mae hyn yn ymestyn i'r cyhoedd hefyd. Cymysg yw'r dystiolaeth ar eu heffaith, er enghraifft, i ba raddau y maent wedi ysgogi atgyfeiriadau/adroddiadau na

⁸ Mae adran 126(1) o Ddeddf 2014 yn diffinio 'oedolyn sy'n wynebu risg' fel oedolyn sy'n cael neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, ac mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac o ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (neu'r risg o hynny).

fyddai wedi'u gwneud yn absenoldeb dyletswydd o'r fath, neu ar gyffredinrwydd neu barhad cam-drin plant. Hyd yma, nid oes unrhyw weinyddiaeth yn y DU wedi gosod dyletswydd gyfreithiol ar unigolion i hysbysu am niwed neu bryderon am niwed posibl. Cynhaliodd [Llywodraeth y DU ymgynghoriad](#) oedd yn cynnwys cynigion ar hysbysu gorfodol a gweithredu ar gam-drin plant ac esgeulustod, ym mis Gorffennaf 2016. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ym mis Mawrth 2018, cadarnhaodd y Swyddfa Gartref ei bod wedi penderfynu, ar yr adeg honno, i beidio â bwrw ymlaen â'r ddyletswydd hysbysu gorfodol arfaethedig, na dyletswydd i weithredu.

Pam rydym yn ymgynghori?

9. Barn Gweinidogion Cymru yw ei bod yn amserol ystyried y dyletswyddau hysbysu sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 2014, ac a ddylid eu hehangu i gynnwys gofyniad cyfreithiol ar rai unigolion i hysbysu am blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg i'r awdurdod lleol perthnasol, er mwyn ystyried a fydd hyn yn amddiffyn plant ac oedolion rhag niwed yn well.
10. Er mwyn llywio ein meddylfryd polisi ar hyn a'n hymateb posibl i adroddiad yr Ymchwiliad sydd ar ddod, rydym yn gwahodd eich barn ynghylch a yw'n gymesur neu'n briodol cyflwyno dyletswydd gyfreithiol i hysbysu am blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg a fyddai'n berthnasol i unigolion mewn cyrff perthnasol, fel rhai gwahanol i'r dyletswyddau cyfredol ar sefydliadau.
11. Yn olaf, byddem hefyd yn croesawu barn ynghylch pa fathau o alwedigaethau neu rolau, ym mha sectorau, y dylid eu cynnwys, pe bai dyletswydd ar unigolion yn cael ei chyflwyno, yn ogystal â pha sancsiynau a allai fod yn gymesur neu'n briodol mewn sefyllfaoedd pan na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd.
12. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth, gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Fodd bynnag, ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu eich barn ar y manteision, anfanteision, costau, arbedion, effeithiau ar gydraddoldeb ac effeithiau ar y Gymraeg, sy'n debygol pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno.

Cwestiynau ar gyfer pennod 3

Cwestiwn 3.1: Beth yw eich barn ar yr egwyddor o osod dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg (fel y'i diffinnir yn adran 130(4) o Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) yn uniongyrchol ar unigolion mewn cyrff perthnasol?

Cwestiwn 3.2: Beth yw eich barn ar yr egwyddor o osod dyletswydd i hysbysu am oedolyn sy'n wynebu risg (fel y'i diffinnir yn adran 126(1) o Ddeddf 2014) yn uniongyrchol ar unigolion mewn cyrff perthnasol?

Cwestiwn 3.3: Beth yn eich barn chi fyddai'r manteision, anfanteision, risgiau, costau, arbedion ac effeithiau ar gydraddoldeb, sy'n debygol o ddull o'r fath?

Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 3.4: Pa wersi gallwn ni eu dysgu o'r dyletswyddau i hysbysu mewn gwledydd eraill?

Cwestiwn 3.5: Pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno – ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg – a ddylai'r rhain fod ochr yn ochr â'r dyletswyddau presennol ar sefydliadau o dan Ddeddf 2014, neu gymryd eu lle?

Cwestiwn 3.6: Pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno, a ddylen nhw fod yn berthnasol i weithlu'r 'partneriaid perthnasol' presennol o dan adran 162 o Ddeddf 2014 (gan gynnwys timau troseddau ieuencid mewn perthynas â phlant), neu'n ehangach, er enghraifft i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau crefyddol neu chwaraeon, etc., ac yn benodol:

(a) Beth yw eich barn am hyn o ran plant (o dan 18 oed)?

(b) Beth yw eich barn am hyn o ran oedolion?

Cwestiwn 3.7: Pe bai dyletswyddau hysbysu unigol yn cael eu cyflwyno, pa fathau o alwedigaeth neu rolau ddylai fod yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd (e.e. aelodau o broffesiynau rheoleiddiedig; staff cyflogedig, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu rheoleiddio; gwirfoddolwyr), ac yn benodol:

(a) Beth yw eich barn am hyn o ran plant (o dan 18 oed)?

(b) Beth yw eich barn am hyn o ran oedolion?

Cwestiwn 3.8: Pa sancsiynau ydych chi'n meddwl fyddai'n gymesur neu'n briodol am fethu â chydymffurfio â dyletswydd hysbysu unigol?

Cwestiwn 3.9: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno dyletswyddau hysbysu unigol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 3.10: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion ar gyfer cyflwyno dyletswyddau hysbysu unigol gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 3.11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Cyflwyniad i benodau 4, 5 a 6 yn ymwneud â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cyflwynodd [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) ('Deddf 2016') drefn gofrestru a rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth ('gwasanaethau rheoleiddiedig') yng Nghymru. Diwygiodd hefyd y system ar gyfer cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Gweithredwyd Deddf 2016 mewn tri cham. Fel rhan o hyn, datblygodd Llywodraeth Cymru gyfres sylweddol o reoliadau a chanllawiau statudol. Roedd hefyd yn cynnwys codau ymarfer, rheolau a gweithdrefnau a roddwyd ar waith o dan y Ddeddf gan reoleiddwyr gwasanaethau a'r gweithlu.

- **O Ebrill 2017 ymlaen:** Ymgwymerodd Gofal Cymdeithasol Cymru â swyddogaethau Cyngor Gofal Cymru, gyda swyddogaethau uwch, i ddod yn gofrestrydd ac yn rheoleiddiwr gweithwyr gofal cymdeithasol.
- **O Ebrill 2018 ymlaen:** Dechreuodd gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd, a gwasanaethau cymorth cartref ailgofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, yn amodol ar ofynion, safonau a sancsiynau newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau a'u hunigolion cyfrifol.
- **O Ebrill 2019 ymlaen:** Roedd yn ofynnol i wasanaethau mabwysiadu, maethu, lleoli oedolion ac eiriolaeth rheoleiddiedig ailgofrestru/cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, yn amodol ar ofynion, safonau a sancsiynau newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau a'u hunigolion cyfrifol.

Mae Deddf 2016 bellach wedi bod yn weithredol ers sawl blwyddyn, ac rydym yn dechrau gweld manteision systemau mwy hyblyg sy'n blaenoriaethu gwelliant parhaus dros safonau gofynnol; sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth; ac sy'n cyfrannu at broffesiynoli ein gweithlu gofal cymdeithasol hanfodol.

Ym mhenodau 4 a 5 rydym yn cynnig nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 2016, a nodwyd ar y cyd â rheoleiddwyr gwasanaethau a'r gweithlu, a fydd naill ai'n cyflawni'r bwriad polisi gwreiddiol; yn datrys anghysondebau mewn systemau sydd wedi dod i'r amlwg yn ymarferol; a/neu'n cynorthwyo Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu prosesau a'u gweithgareddau rheoleiddio.

Ym mhennod 6 rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i alluogi estyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol, i gynnwys pob gweithiwr gofal plant a chwarae, a thrwy hynny ddarparu mandad clir i Ofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn cefnogi'r sector hwn, yn ei gyfanrwydd.

Pennod 4: Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol

1. Mae Rhan 2 ac Atodlen 1 o [Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) ('Deddf 2016') yn darparu'r sail y mae Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC') – ar ran Gweinidogion Cymru – yn ymgymryd â swyddogaethau arni mewn perthynas â chofrestru, rheoleiddio ac arolygu 'gwasanaethau rheoleiddiedig'.
2. Mae'r bennod hon o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddiwygiadau arfaethedig i'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig, darparwyr gwasanaethau a'u hunigolion cyfrifol dynodedig. Mae'r rhain yn ymwneud ag ystod o faterion y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2016, gan gynnwys:
 - a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig
 - b) Cyhoeddi datganiadau blynyddol
 - c) Cyhoeddi adroddiadau arolygu
 - d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad
 - e) Unigolion cyfrifol
 - f) Diffiniad o 'Ofal' i blant a phobl ifanc
3. Nodir isod fanylion pellach am y diwygiadau arfaethedig ar gyfer pob maes.
4. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, fodd bynnag, rydym wedi crynhoi effeithiau tebygol y cynigion a byddem yn croesawu'ch barn ar y rhain.

a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

5. Mae'r adran hon yn delio â dau fater – y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu a'r pŵer i gael mynediad i gynnal arolygiad.

Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu

6. Mae'n drosedd o dan adran 5 o Ddeddf 2016 i berson ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi'i gofrestru i wneud hynny. Rhan o rôl AGC – gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, fel y rheoleiddiwr gwasanaeth – yw nodi a chymryd camau gorfodi priodol yn erbyn y rhai y mae'n credu eu bod yn gweithredu heb gofrestriad cyfreithlon.
7. Mae adran 32 o Ddeddf 2016 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae'r rhain yn cynnwys darparwr gwasanaeth, unigolyn cyfrifol, person a gyflogir gan ddarparwr gwasanaeth neu sydd fel arall yn gweithio i ddarparwr gwasanaeth ac unrhyw berson sydd wedi dal unrhyw un neu ragor o'r swyddi hynny.
8. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys person y mae gan AGC achos rhesymol i gredu ei fod yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru. Mae'r ffaith nad yw person o'r fath wedi'i gynnwys yn ei gwneud yn anos i AGC gael gwybodaeth allweddol gan unigolion y mae'n ymddangos eu bod yn gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb fod wedi cofrestru i wneud hynny.
9. **Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu gwybodaeth pan fo achos rhesymol i gredu ei fod yn darparu gwasanaeth a ddylai gael ei reoleiddio.**
10. **Mae'n drosedd, o dan adran 49 o Ddeddf 2016, i fethu â darparu gwybodaeth pan fo'n ofynnol i wneud hynny. Felly, rydym yn bwriadu estyn y drosedd hon, fel y bydd yn gymwys mewn cysylltiad â'r diwygiad arfaethedig.** Gallai cosbau am euogfarn fod yn ddirwy neu hyd at 2 flynedd o garchar, neu'r ddau.

Pŵer mynediad

11. Mae adran 33 o Ddeddf 2016 yn disgrifio'r term "arolygu" fel arolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig ac o drefniadaeth a chydgyssylltiad gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae adran 34 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru (AGC) at ddibenion cynnal arolygiad, gan ddarparu y caiff arolygydd fynd i mewn ac arolygu unrhyw fangre y mae gan yr arolygydd sail i gredu ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio) fel man y darperir (neu y darparwyd) gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono. O ganlyniad mae diffyg eglurder o ran a fyddai hyn yn galluogi arolygydd i fynd i mewn ac arolygu mangre y mae gwasanaeth nad yw wedi'i gofrestru (ac felly heb ei reoleiddio) yn gweithredu ohoni.

12. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i'w gwneud yn glir y caiff arolygydd fynd i mewn ac archwilio unrhyw fangre y mae ganddo achos rhesymol i gredu:

- ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio) fel man y darperir (neu y darparwyd) gwasanaeth ynddo neu ohono, neu
- ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio) mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

13. Mae'n drosedd, o dan adran 50 o Ddeddf 2016, i rwystro arolygydd neu fetu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan arolygydd. Felly, rydym yn cynnig estyn y drosedd hon, fel y bydd yn gymwys mewn cysylltiad â'r diwygiad arfaethedig. Gallai cosbau am euogfarn fod yn ddirwy neu hyd at 2 flynedd o garchar, neu'r ddau.

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

14. Bydd y diwygiadau arfaethedig hyn yn adfer y sefyllfa flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000⁹ ac yn sicrhau eglurder ar wyneb Deddf 2016, gan gael gwared ag unrhyw amwysedd cyfreithiol.

15. Byddant yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru (AGC) y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i sefydlu a yw unigolion yn gweithredu gwasanaeth heb gofrestru. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu pobl agored i niwed a allai fod mewn perygl o ddefnyddio gwasanaeth nad oes ganddo'r oruchwyliaeth neu'r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch a'u lles.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

16. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru (AGC) y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i sefydlu a yw unigolion yn gweithredu gwasanaeth heb gofrestru. Ni fydd unrhyw effaith ar ddarparwyr presennol nac unigolion cyfrifol gwasanaethau rheoleiddiedig sydd eisoes wedi cofrestru

⁹ Gweler adran 31(2) o'r Ddeddf Safonau Gofal 2000: 'Caiff person a awdurdoddir gan yr awdurdod cofrestru ar unrhyw adeg fynd i mewn ac archwilio mangre sy'n cael ei defnyddio, neu y mae ganddo achos rhesymol i gredu ei fod yn cael ei defnyddio, fel sefydliad neu at ddibenion asiantaeth.'

b) Cyhoeddi datganiadau blynyddol

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

17. Mae adran 10 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol – gan gynnwys datganiad cydymffurfio a gwybodaeth allweddol arall am redeg y gwasanaeth – i Weinidogion Cymru (AGC) ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) gyhoeddi pob datganiad a gyflwynir. Mae hyn yn arwain, yn anfwriadol, at greu atebolrwydd ar gyfer Gweinidogion Cymru o ran diogelu data a difenwi ar gyfer unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y datganiadau.
18. **Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i osod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar y darparwr gwasanaeth, sy'n berchen ar yr wybodaeth.**
19. **Mae'n drosedd o dan adran 48 o Ddeddf 2016 i ddarparwr gwasanaeth fethu â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC). Felly, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn ddoeth creu trosedd gyfochrog sef methu â chyhoeddi datganiad. Dirwy fyddai'r gosb am euogfarn.**

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

20. Bydd gosod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod datganiadau'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn a bod gwybodaeth am y gwasanaeth rheoleiddiedig ar gael i'r cyhoedd a'i bod yn hygyrch.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

21. Er y bydd yn ofynnol o hyd i AGC ystyried datganiadau blynyddol fel rhan o'r broses arolygu, ni fydd angen i arolygwyr wirio'r datganiadau o safbwynt tor diogelwch data posibl neu wybodaeth arall na fyddai efallai'n briodol i'w chyhoeddi. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar arolygwyr ac yn atgyfnerthu cyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau dros yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn eu datganiadau.

22. Er bod darparwyr gwasanaethau yn cysylltu ag AGC ar-lein (er enghraifft, i gyflwyno eu datganiadau blynyddol), mae risg na fydd gan bob un ohonynt y gallu i gyhoeddi datganiadau, gan nad oes ganddynt wefan efallai. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai goblygiadau o ran costau i'r darparwyr hynny, o ran datblygu a chynnal gwefan.

c) Cyhoeddi adroddiadau arolygu

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

23. Mae adran 36 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) lunio a chyhoeddi adroddiad arolygu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i arolygiad gael ei gynnal.
24. Mae hyn yn cynnwys asesiad o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, ac asesiad o drefniadaeth a chydgyssylltiad y gwasanaeth.
25. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu y byddai hyn yn gymwys i unrhyw weithgaredd arolygu a wneir gan AGC, ni waeth beth yw diben yr ymweliad, gan gynnwys gwaith gorfodi rheolaidd neu waith gorfodi dilynol, na fyddai angen adroddiad ar ei ôl.
26. Fel y nodir yng [Nghod Ymarfer AGC ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig](#) mae 4 math o arolygiad:
- Arolygiad llawn – mae arolygiad llawn yn ystyried y pedair thema (llesiant, gofal a chymorth, yr amgylchedd, ac arwain a rheoli) yn fanwl. Mae'n gyfle i arolygwyr gadarnhau bod darparwyr yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol, a'u bod yn bodloni amodau eu cofrestrriad.
 - Arolygiad â phwyslais penodol – fel arfer, cynhelir arolygiadau â phwyslais penodol mewn ymateb i bryder penodol, neu er mwyn gwneud gwaith dilynol ar achosion o dorri rheoliadau neu broblemau eraill a nodwyd yn ystod arolygiad blaenorol. Yn gyffredinol, mae arolygiadau â phwyslais penodol yn fyrrach nag arolygiadau llawn, ac ni chaiff y pedair thema o reidrwydd eu hystyried. Fodd bynnag, bydd arolygiad â phwyslais penodol bob amser yn ystyried thema 'llesiant'.
 - Arolygu darparwyr – pan fydd AGC yn nodi patrymau neu lawer o achosion o ddiffyg cydymffurfio, pryderon neu faterion diogelu mewn nifer o wasanaethau, gall hyn arwain at adolygu'r darparwr. Bydd arolygiadau o

ddarparwyr yn edrych yn benodol ar drefniadau llywodraethu a rheoli corfforaethol y darparwr gwasanaeth.

- Arolygiadau thematig – mae arolygiadau thematig yn canolbwyntio ar feysydd ymarfer penodol ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys adolygu ymarfer gofal mewn cartrefi i bobl ag anableddau dysgu a rhoi meddyginiaeth mewn cartrefi gofal neu ofal dementia. Mae hyn yn galluogi AGC i feithrin dealltwriaeth o ymarfer gofal penodol ledled Cymru, cyflwyno adroddiadau arno a gwneud argymhellion.

27. Ar gyfer pob arolygiad a nodir uchod, bydd llunio a chyhoeddi adroddiad arolygu yn parhau i fod yn ofynnol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.
28. Fodd bynnag, un enghraifft o sefyllfa pan na fyddai cyhoeddi adroddiad arolygu yn briodol yw pan allai hynny arwain at adnabod unigolion agored i niwed neu blant – er enghraifft, cartref gofal i blant neu gartref gofal bach lleol ar gyfer oedolion agored i niwed. Byddai adroddiad arolygu yn dal i gael ei ysgrifennu a'i gofnodi gan arolygwyr.
29. Hefyd, ni fyddai gweithgareddau penodol – megis ymweliad gan arolygydd â gwasanaeth ar gyfer gwaith dilynol ar ôl gweithgarwch gorfodi, gan gynnwys materion a nodwyd mewn hysbysiad gwella – yn golygu bod angen cyhoeddi adroddiad arolygu yn dilyn yr ymweliad. Serch hynny, byddai arolygwyr yn gwneud cofnod o'r ymweliad.
30. Gall arolygydd hefyd ymweld â gwasanaeth fel rhan o'r broses o gofrestru'r gwasanaeth, ac ni fyddai angen adroddiad arolygu yn dilyn gweithgaredd o'r fath.
31. **Rydym yn cynnig diwygio adran 36 o Ddeddf 2016 i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol i Weinidogion Cymru (AGC) i gydnabod amgylchiadau pan na fyddai llunio a/neu gyhoeddi adroddiad arolygu o bosibl yn briodol, yn berthnasol neu'n gymesur.**

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

32. Byddai'r diwygiad arfaethedig hwn yn ei gwneud yn glir nad yw'n ofynnol i AGC lunio a/neu gyhoeddi adroddiad arolygu ar ôl pob ymweliad â gwasanaeth.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

33. Bydd y diwygiad yn ei gwneud yn glir y bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn parhau i fod yn ofynnol ar ôl unrhyw un o'r 4 math o arolygiad a nodir uchod – arolygiad llawn, arolygiad â phwyslais penodol, arolygu darparwyr neu arolygiad thematig (ac eithrio pan allai cyhoeddi adroddiad arolygu ddatgelu lleoliad cartref gofal i blant neu gartref gofal bach lleol ar gyfer oedolion agored i niwed). Bydd y diwygiad yn rhoi eglurder ynghylch amgylchiadau pan na fydd angen adroddiad.
34. Gan y bydd y diwygiad arfaethedig yn atgyfnerthu'r arferion presennol, nid ydym yn rhag-weld unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol uniongyrchol.

d) Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad

Amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

35. Mae adran 13 (3) a (4) o Ddeddf 2016 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (AGC) i amrywio cofrestriad darparwr, heb gais, drwy ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu fan lle y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig, os yw darparwr gwasanaeth yn darparu mwy nag un gwasanaeth rheoleiddiedig, *ond nad yw bellach yn darparu un o'r gwasanaethau hynny*. Mae hefyd yn cynnwys pan oedd darparwr gwasanaeth yn arfer darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man penodol, *ond nad yw bellach yn darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig yn y man hwnnw neu mewn perthynas ag ef*.
36. Wrth gymryd y cam hwn, rhaid i AGC ddilyn y broses hysbysiad gwella a nodir yn adran 16 ac adran 17.
37. Mae'r broses hysbysiad gwella yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth nodi'r gwelliannau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w wasanaeth, o fewn terfyn amser penodedig, fel na fydd AGC yn dileu'r gwasanaeth o'i gofrestrriad.
38. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oes diben rhoi hysbysiad gwella fel rhan o'r broses amrywio, gan nad yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu'r gwasanaeth.
39. **Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i ddileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru (AGC) ddilyn y broses hysbysiad gwella a nodir yn adrannau 16 a**

17 pan fo Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu pwerau o dan adran 13 (3) a (4), i ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig, neu fan lle y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig, o gofrestriad darparwr gwasanaeth gan nad yw bellach yn darparu'r gwasanaeth hwnnw neu'n defnyddio'r lle hwnnw i ddarparu gwasanaeth.

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

40. Byddai'r diwygiad arfaethedig hwn yn dileu cam diangen i arolygwyr AGC a darparwyr gwasanaethau wrth ddileu gwasanaeth o gofrestriad sydd eisoes wedi cau.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

41. Bydd y diwygiad arfaethedig yn arbed amser i ddefnyddwyr AGC a darparwyr gwasanaethau drwy symleiddio'r broses o ddileu gwasanaeth o gofrestriad sydd eisoes wedi peidio â gweithredu.

Dileu amod ar gofrestriad darparwr gwasanaeth

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

42. Mae adran 13 (1) o Ddeddf 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru (AGC) i amrywio amodau a gosod amodau pellach ar gofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais gan y darparwr gwasanaeth.

43. I wneud hyn, rhaid i Weinidogion Cymru (AGC) ar hyn o bryd roi hysbysiad o gynnig o dan adran 18 ac yna hysbysiad o benderfyniad (adran 19). Ar hyn o bryd mae hyn yn gymwys hyd yn oed pan nad yw'r amgylchiadau a arweiniodd at osod yr amod yn berthnasol bellach.

44. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i ddileu amod ar gofrestriad darparwr gwasanaeth, heb roi hysbysiad o gynnig a hysbysiad o benderfyniad (adran 18 ac adran 19), pan nad yw'r amgylchiadau a arweiniodd at osod yr amod yn berthnasol bellach.

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

45. Bydd y diwygiad arfaethedig hwn yn sicrhau bod gan AGC y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i ddileu amod ar gofrestriad darparwr gwasanaeth heb ddilyn y broses hysbysiad o gynnig (adran 18) a hysbysiad o benderfyniad yn dilyn y broses hysbysiad o gynnig (adran 19) pan nad yw'r amgylchiadau a arweiniodd at osod yr amod yn berthnasol bellach.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

46. Byddai'r diwygiad yn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr ac AGC gan gynnig dull synhwyrol, pragmatig.

Pŵer i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

47. Mae adran 15 o Ddeddf 2016 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru (AGC) ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys (adran 15(1)(a)) amgylchiadau pan nad yw'r darparwr gwasanaeth yn darparu unrhyw wasanaeth rheoleiddiedig bellach.
48. Mae canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) ddilyn y broses hysbysiad gwella a nodir yn adrannau 16 a 17. Rydym o'r farn nad oes diben rhoi hysbysiad gwella i ddarparwr gwasanaeth nad yw bellach yn darparu unrhyw wasanaeth.
49. **Rydym yn cynnig dileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru (AGC) ddilyn y broses hysbysiad gwella a nodir yn adrannau 16 a 17 o Ddeddf 2016 i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth nad yw bellach yn darparu unrhyw wasanaeth rheoleiddiedig.**

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

50. Byddai'r diwygiad arfaethedig yn dileu cam diangen i AGC wrth ddileu gwasanaeth o gofrestriad sydd eisoes wedi cau.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

51. Bydd y diwygiad yn arbed amser i AGC a darparwyr drwy symleiddio'r broses o ddileu gwasanaeth o gofrestrriad sydd eisoes wedi peidio â gweithredu.

Gwybodaeth gan ddarparwyr sy'n canslo eu cofrestrriad

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

52. Mae adran 11 o Ddeddf 2016 yn ymdrin â cheisiadau i amrywio cofrestrriad fel darparwr gwasanaeth ac mae'n cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i bennu'r wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi cais.
53. Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr ddarparu datganiad i Weinidogion Cymru (AGC) ynghylch sut y bydd yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau o dan adran 27, hyd nes i'r gwasanaeth gau. Mae [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2017](#), a wnaed o dan adran 27, yn nodi'r gofynion o ran ansawdd y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu.
54. Mae adran 14 o Ddeddf 2016 yn ymdrin â cheisiadau i ganslo cofrestrriad gan ddarparwr gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pŵer i wneud rheoliadau, sy'n cyfateb i'r pŵer o dan adran 11.
55. Mae hyn yn creu bwlch ym mhwerau AGC i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n canslo ei gofrestrriad ac yn gadael y farchnad, ynghylch sut y bydd yn cydymffurfio â rheoliadau o dan adran 27, hyd nes i'r gwasanaeth gau.
56. **Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i greu pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 14, sy'n cyfateb i'r pŵer o dan adran 11, er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n canslo ei gofrestrriad ac yn gadael y farchnad.**

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

57. Bydd y diwygiad arfaethedig yn sicrhau bod gan AGC y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n gadael y farchnad ac yn canslo ei gofrestrriad. Bydd yn creu eglurder i ddarparwyr gwasanaethau am yr wybodaeth sydd i'w

disgwyl o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd hefyd yn cysoni'r dull gweithredu ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n gadael y farchnad â'r dull gweithredu ar gyfer y rhai sy'n amrywio eu cofrestriad.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

58. Bydd y diwygiad arfaethedig hwn yn rhoi eglurder a sicrwydd i AGC bod darparwyr gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gofynion a roddir arnynt o dan adran 27 mewn cysylltiad ag ansawdd y gofal a'r cymorth i bobl agored i niwed sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Pŵer i estyn y terfyn amser mewn Hysbysiad Gwella

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

59. Mae adran 17 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) hysbysu'r darparwr gwasanaeth am benderfyniadau ar ôl hysbysiad gwella. Mae adran 17(2) yn nodi, os nad yw'r darparwr gwasanaeth yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o fewn y terfyn amser a nodir yn yr hysbysiad gwella, fod rhaid i Weinidogion Cymru (AGC) barhau â'r camau i ganslo neu amrywio ei gofrestrriad.

60. Mae adran 17(3) yn nodi, os nad yw'r darparwr yn cymryd cam sy'n ofynnol yn yr hysbysiad gwella, y caiff Gweinidogion Cymru (AGC) estyn y terfyn amser. Nid oes opsiwn tebyg yn adran 17(2) i Weinidogion Cymru (AGC) estyn y terfyn amser pan na ddarperir gwybodaeth (er y gall fod rheswm da – er enghraifft, bod angen i'r darparwr gymryd camau i ddarparu'r wybodaeth).

61. O dan amgylchiadau o'r fath nid oes dewis gan AGC ond canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth, gweithred a allai fod yn anghymesur ac yn ddiangen.

62. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru (AGC) i estyn yr amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth pan roddir hysbysiadau gwella.

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

63. Bydd galluogi AGC i estyn y terfyn amser ar gyfer darparu gwybodaeth pan roddir hysbysiadu gwella yn creu dull gorfodi mwy cymesur a hyblyg pan nad yw'r darparwr gwasanaeth yn gallu darparu'r wybodaeth o fewn y terfyn amser penodedig.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

64. Bydd y diwygiad arfaethedig hwn yn caniatáu i AGC ymateb mewn ffordd fwy hyblyg pan nad yw darparwyr gwasanaethau yn cyrraedd y safonau gofynnol. Bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i AGC estyn y terfyn amser i ddarparwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth, o dan amgylchiadau penodol. Mae hyn yn well na gorfod canslo eu cofrestriad, pe bai ganddyn nhw esboniad rhesymol pam nad ydynt yn gallu darparu'r wybodaeth. Gall canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth fod yn anghymesur o dan yr amgylchiadau hyn a gorfodi unigolion i symud a dod o hyd i wasanaeth arall.

Pŵer i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth o dan amgylchiadau rhagnodedig

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

65. Mae adran 16 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) roi hysbysiad gwella cyn canslo neu amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth. Mae adran 16(3) yn nodi'r wybodaeth sydd i'w phennu mewn hysbysiad gwella, gan gynnwys (yn 16(3)(b)) y camau sydd i'w cymryd neu'r wybodaeth sydd i'w darparu er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru (AGC) nad yw canslo neu amrywio yn briodol.

66. Yn ymarferol mae yna achosion pan fo'r rhesymau dros ganslo yn ddi-droi'n-ôl, er enghraifft os yw'r darparwr gwasanaeth yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd ddifrifol iawn, ac felly nad oes diben i'r gofyniad i ofyn am gamau/gwybodaeth, mewn hysbysiad gwella, fel rhan o'r broses.

67. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i ddatgymhwyso gofyniad adran 16(3)(b) mewn hysbysiad gwella – i gymryd camau penodol neu ddarparu gwybodaeth – o dan amgylchiadau rhagnodedig, pan na fyddai diben cymhwyso'r gofyniad.

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

68. Bydd y diwygiad arfaethedig yn cael gwared ag elfen ddiangen o'r broses hysbysiad gwella pan fo'r rhesymau dros ganslo yn ddi-droi'n-ôl. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dull gweithredu mwy addas ar gyfer defnyddio hysbysiadau gwella yn y cyd-destun hwn, ac ar gyfer yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn hysbysiadau o'r fath. Bydd yr hysbysiad gwella yn nodi'r rhesymau pam nad oes angen i'r darparwr gwasanaeth gymryd unrhyw gamau na darparu unrhyw wybodaeth.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

69. O dan ystod ragnodedig o amgylchiadau, ni fydd darparwyr gwasanaethau yn cael cyfle i gymryd camau na darparu gwybodaeth er mwyn bodloni AGC nad yw canslo neu amrywio yn briodol. Fodd bynnag, ni fydd hyn ond yn berthnasol pan fo darparwr wedi cyflawni trosedd ddifrifol neu pan fo'r rhesymau dros ganslo yn ddi-droi'n-ôl.

e) Unigolion cyfrifol

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol a sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

70. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth benodi Unigolyn Cyfrifol sydd wedi ei ddynodi gan y darparwr fel rhan o'i gofrestrriad, i gyflawni cyfrifoldebau penodol mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae'r gofynion ar Unigolion Cyfrifol wedi'u nodi, er enghraifft, yn [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2017](#).

Cyflwyno sylwadau

71. Mae adran 22 o Ddeddf 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru (AGC) i ganslo dynodiad Unigolyn Cyfrifol, ar seiliau penodedig. Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, rhaid cyflwyno hysbysiad gwella i'r unigolyn, gan nodi'r rheswm dros y bwriad i ganslo, a'i gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau neu ddarparu gwybodaeth o fewn terfyn amser i fodloni AGC na ddylid canslo ei ddynodiad.

72. Ar hyn o bryd, nid oes hawl gyfreithiol i'r Unigolyn Cyfrifol gyflwyno sylwadau yn erbyn yr hysbysiad gwella na'r bwriad i ganslo ei ddynodiad. Yn ymarferol, mae AGC yn rhoi'r cyfle i unigolion gyflwyno sylwadau ond byddai diwygiad i Ddeddf 2016 yn rhoi sail gyfreithiol i'r gofyniad hwn.

73. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i roi'r hawl i unigolion gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru (AGC), yn erbyn hysbysiad gwella neu fwriad i ganslo eu dynodiad, ar yr amod y gwneir y rhain o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad.

Anfon yr Hysbysiad Gwella at y darparwr gwasanaeth

74. Ar hyn o bryd nid oes gofyniad i'r hysbysiad gwella a roddir i'r Unigolyn Cyfrifol gael ei anfon at y darparwr gwasanaeth. Mae darpariaeth wedi'i gwneud yn adran 22(7) o Ddeddf 2016 i Weinidogion Cymru (AGC) roi hysbysiad canslo (unwaith y mae wedi digwydd) i'r darparwr gwasanaeth ond nid yn gynharach pan roddir hysbysiad gwella.

75. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw hysbysiad gwella a roddir i Unigolyn Cyfrifol hefyd yn cael ei anfon at y darparwr gwasanaeth.

Dileu Unigolyn Cyfrifol heb wneud cais i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd

76. Mae adran 11 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth wneud cais i Weinidogion Cymru (AGC) os oes angen iddo amrywio amodau ei gofrestrriad. Mae hyn yn cynnwys os yw am ddynodi Unigolyn Cyfrifol gwahanol gan nad oes unigolyn o'r fath yn y rôl. Pan fydd darparwyr gwasanaethau am newid eu hunigolyn cyfrifol dynodedig mae'n ofynnol iddynt wneud cais i amrywio amod o'u cofrestrriad er mwyn dileu'r Unigolyn Cyfrifol a enwyd yn flaenorol ac ychwanegu'r un newydd.

77. Er ei bod yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau ddynodi Unigolyn Cyfrifol arall o fewn terfyn amser penodedig (28 diwrnod), fel y nodir mewn [rheoliadau](#) a wnaed o dan adran 11, efallai na fyddant yn gallu gwneud hynny ar unwaith. Y canlyniad yw bod yr Unigolyn Cyfrifol gwreiddiol yn parhau ar gofrestrriad y darparwr gwasanaeth hyd nes y dynodir Unigolyn Cyfrifol newydd, er nad yw bellach o reidrwydd yn y gwasanaeth.

78. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i ganiatáu i ddarparwr gwasanaeth wneud cais i Weinidogion Cymru (AGC) i amrywio amodau ei gofrestrriad i

ddileu Unigolyn Cyfrifol hyd yn oed os nad yw'n dynodi'r Unigolyn Cyfrifol newydd fel rhan o'r un cais.

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

Cyflwyno sylwadau

79. Bydd rhoi'r hawl i Unigolion Cyfrifol gyflwyno sylwadau yn erbyn hysbysiad gwella neu fwriad i ganslo eu dynodiad fel Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau nad yw'r rheoleiddiwr ond yn symud ymlaen at benderfyniad ynghylch canslo ar ôl clywed unrhyw safbwyntiau gan yr unigolyn o dan sylw.

Anfon yr Hysbysiad Gwella at y darparwr gwasanaeth

80. Bydd ei gwneud yn ofynnol anfon unrhyw hysbysiad gwella at y darparwr gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r materion yn gynnar ac yn gallu cymryd camau i fynd i'r afael â nhw a'u datrys. Bydd hefyd yn sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn gwbl ymwybodol o'r angen posibl i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd. Bydd gofyniad cyfreithiol i rannu'r wybodaeth hon hefyd yn datrys unrhyw faterion o ran diogelu data.

Dileu Unigolyn Cyfrifol heb wneud cais i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd

81. Bydd caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau wneud cais i ddileu Unigolyn Cyfrifol heb orfod gwneud cais i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd yn golygu bod yr Unigolyn Cyfrifol gwreiddiol, nad yw o bosibl yn rhan o'r gwasanaeth bellach, yn peidio â bod yn gyfrifol am y gofynion cyfreithiol a osodir arnynt. Bydd hyn yn creu eglurder o ran cyfrifoldeb cyfreithiol.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

Cyflwyno sylwadau

82. Ni fydd rhoi'r hawl i Unigolion Cyfrifol gyflwyno sylwadau yn erbyn hysbysiad gwella neu fwriad i ganslo eu dynodiad fel Unigolyn Cyfrifol yn cael effaith

sylweddol ar ddarparwyr gwasanaethau, AGC na'r cyhoedd gan y bydd y diwygiad hwn yn nodi yn y gyfraith yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn ymarferol.

Anfon yr Hysbysiad Gwella at y darparwr gwasanaeth

83. Bydd ei gwneud yn ofynnol anfon yr hysbysiad gwella at y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu yn unol â gofyniad statudol. Bydd yn sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn ymwybodol o faterion yn gynnar. Nid ydym o'r farn y bydd hyn yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddarparwyr, Unigolion Cyfrifol, AGC na'r cyhoedd.

Dileu Unigolyn Cyfrifol heb wneud cais i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd

84. Byddai dileu dynodiad Unigolyn Cyfrifol heb orfod gwneud cais i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd ar yr un pryd yn golygu y bydd y gwasanaethau hyn yn gweithredu heb Unigolyn Cyfrifol dynodedig ar y gofrestr gyhoeddus am gyfnod byr (hyd at 28 diwrnod). Yn ymarferol, mae Unigolion Cyfrifol weithiau'n gadael ar fyr rybudd, gan adael gwasanaethau, dros dro, heb Unigolyn Cyfrifol dynodedig i gyflawni ei ddyletswyddau. O dan amgylchiadau o'r fath, mae adran 9(4) o [Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2017](#) yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r Unigolyn Cyfrifol.

f) Diffiniad o 'Ofal' i blant a phobl ifanc

Beth yw'r problemau â'r ddarpariaeth bresennol?

85. Ar hyn o bryd, mae adran 3 o Ddeddf 2016 yn darparu diffiniad o 'ofal' sy'n cwmpasu gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant. Yng nghydestun gwasanaethau preswyl i blant, rhaid i weithgareddau ddigwydd sy'n adlewyrchu'r math o ofal (arweiniad, cyfarwyddyd a ffiniau) y byddai rhiant yn ei gynnig i blentyn. Byddai gwasanaethau o'r fath, pe baent yn cael eu darparu i oedolion, yn cyd-fynd â'r diffiniad o 'gymorth', ond o'u darparu ar gyfer plant hŷn, gellid eu disgrifio'n gywir fel 'gofal'.

86. Mae hyn yn bwysig gan fod rhan o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal yn Atodlen 1 i Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn ymwneud â darparu 'gofal'¹⁰.

Sut rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016?

87. Mae'r diffiniad o 'ofal' yn adran 3 o Ddeddf 2016 yn cwmpasu gofal mewn nifer o gyd-destunau gan gynnwys darparu gofal y byddai'n rhesymol disgwyl i riant ei roi/ei ddarparu. Felly, rydym yn cynnig gwneud y diffiniad o 'ofal' yn Neddf 2016 yn gliriach i adlewyrchu'r gwahanol fathau o ofal a allai fod yn berthnasol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i blant lle y darperir llety. Mae'r enghreifftiau yng [Nghanllaw Cofrestru](#) Arolygiaeth Gofal Cymru yn darparu model ar gyfer y dull yr ydym yn cynnig ei weithredu. Mae'r canllaw yn nodi: "*Lle y caiff plant eu lletya, mae gofal hefyd yn cynnwys rhoi mesurau a/neu ffiniau sy'n debyg i rai rhieni ar waith yn unol â'r anghenion a nodir mewn unrhyw gynlluniau gofal a chymorth a/neu asesiadau risg*" ac yn rhoi ystod o enghreifftiau gan gynnwys *Paratoi prydau a diodydd, Monitro lleoliad y plentyn ac ymateb i unrhyw achosion o absenoldeb heb eu hesbonio yn unol â'r protocolau cenedlaethol, a Rhoi mesurau rheoli ymddygiad ar waith.*

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

88. Y canlyniad a fwriedir yw ei gwneud yn gwbl glir bod darparu gofal sy'n debyg i ofal rhiant, o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol i blant lle y darperir llety, yn cael ei gydnabod fel 'gofal' o fewn yr ystyr yn Neddf 2016.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

89. Gan y bydd y diwygiad arfaethedig yn atgyfnerthu'r arferion presennol, nid ydym yn rhag-weld unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol uniongyrchol.

¹⁰ "[darpariaeth] o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal mewn man yng Nghymru, i bersonau oherwydd eu hyglwyfedd neu eu hangen"

Cwestiynau ar gyfer pennod 4

Cwestiwn 4.1: *(a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig – pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu gwybodaeth pan fo achos rhesymol i gredu ei fod yn darparu gwasanaeth a ddylai gael ei reoleiddio?

Cwestiwn 4.2: *(a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig – pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i estyn y drosedd o fethu â darparu gwybodaeth pan fo'n ofynnol i wneud hynny, i gynnwys y personau hyn?

Cwestiwn 4.3: *(a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig – pŵer mynediad:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddileu amwysedd a'i gwneud yn glir bod gan Weinidogion Cymru (AGC) y pŵer i fynd i mewn ac archwilio unrhyw fangre y mae ganddynt achos rhesymol i gredu ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio) fel man y darperir (neu y darparwyd) gwasanaeth ynddo neu ohono, neu ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi ei defnyddio) mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig?

Cwestiwn 4.4: *(a) Nodi gwasanaethau anghofrestredig – pŵer mynediad:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i estyn y drosedd o rwystro arolygydd neu fethu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan arolygydd, i gynnwys yr amgylchiadau hyn?

Cwestiwn 4.5: *(b) Cyhoeddi datganiadau blynyddol:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi eu datganiadau blynyddol?

Cwestiwn 4.6: *(b) Cyhoeddi datganiadau blynyddol:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu trosedd gysylltiedig sef methu â chyhoeddi datganiad blynyddol?

Cwestiwn 4.7: (c) *Cyhoeddi adroddiadau arolygu:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi hyblygrwydd ychwanegol i Weinidogion Cymru (AGC) i gydnabod amgylchiadau pan na fyddai llunio a/neu gyhoeddi adroddiad arolygu o bosibl yn briodol, yn berthnasol neu'n gymesur?

Cwestiwn 4.8: (d) *Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad – amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru (AGC) roi hysbysiad gwella i ddarparwr pan nad yw'r darparwr bellach yn darparu'r gwasanaeth hwnnw neu'n defnyddio'r lle hwnnw i ddarparu gwasanaeth?

Cwestiwn 4.9: (d) *Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad – dileu amod ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i ddileu amod ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth heb roi hysbysiad o gynnis (adran 18) a hysbysiad o benderfyniad yn dilyn hysbysiad o gynnis (adran 19), pan nad yw'r amgylchiadau a arweiniodd at osod yr amod yn gymwys bellach?

Cwestiwn 4.10: (d) *Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad – pŵer i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru (AGC) ddilyn y broses hysbysiad gwella i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth pan fydd y darparwr eisoes wedi peidio â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig?

Cwestiwn 4.11: (d) *Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad – gwybodaeth gan ddarparwyr sy'n canslo eu cofrestriad:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 14 o Ddeddf 2016 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n canslo ei gofrestrriad ac yn gadael y farchnad?

Cwestiwn 4.12: (d) *Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad – pŵer i estyn y terfyn amser mewn Hysbysiad Gwella:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru (AGC) i estyn yr amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth pan roddir hysbysiadau gwella?

Cwestiwn 4.13: (d) *Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestrriad – pŵer i ganslo cofrestrriad darparwr gwasanaeth o dan amgylchiadau rhagnodedig:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i alluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i ddatgymhwyso gofyniad adran 16(3)(b) mewn hysbysiad gwella – i gymryd camau penodol neu ddarparu gwybodaeth – o dan amgylchiadau rhagnodedig, pan na fyddai diben cymhwyso'r gofyniad?

Cwestiwn 4.14: (e) *Unigolion cyfrifol – cyflwyno sylwadau:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi'r hawl i Unigolion Cyfrifol gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru (AGC), yn erbyn hysbysiad gwella neu fwriad i ganslo eu dynodiad, ar yr amod y gwneir y sylwadau o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad?

Cwestiwn 4.15: (e) *Unigolion cyfrifol – anfon yr Hysbysiad Gwella at y darparwr gwasanaeth:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw hysbysiad gwella a roddir i Unigolyn Cyfrifol hefyd yn cael ei anfon at y darparwr gwasanaeth?

Cwestiwn 4.16: (e) *Unigolion cyfrifol – dileu Unigolyn Cyfrifol heb wneud cais i ddynodi Unigolyn Cyfrifol newydd:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ganiatáu i ddarparwr gwasanaeth wneud cais i Weinidogion Cymru (AGC) i amrywio amodau ei gofrestrriad i ddileu Unigolyn Cyfrifol pan nad yw'n dynodi'r Unigolyn Cyfrifol newydd fel rhan o'r un cais?

Cwestiwn 4.17: (f) *Diffiniad o 'Ofal' i blant a phobl ifanc:* Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i addasu'r diffiniad o 'ofal' yn adran 3 o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn gwbl glir bod darparu gofal sy'n debyg i ofal rhiant yn cael ei gydnabod fel 'gofal' o fewn yr ystyr yn Neddf 2016?

Cwestiwn 4.18: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn y bennod hon? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:

- Manteision ac anfanteision;
- Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;
- Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;

- Materion ymarferol eraill.

Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol.

Esboniwch eich ateb, naill ai yma neu, os yw'n haws, mae croeso ichi nodi unrhyw effeithiau sy'n benodol i gynnig unigol o dan y cwestiwn priodol uchod.

Cwestiwn 4.19: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y bennod hon yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 4.20: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion yn y bennod hon gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 4.21: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Pennod 5: Diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

1. Mae Rhannau 2 i 8 ac Atodlen 2 o [Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) ('Deddf 2016') yn darparu'r sail y mae Gofal Cymdeithasol Cymru ('GCC') wedi ei sefydlu arni ac y mae'n ymgymryd â swyddogaethau arni mewn perthynas â chofrestru, rheoleiddio a hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol.
2. Mae'r bennod hon o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddiwygiadau arfaethedig i ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, yn benodol:
 - Atodlen 2, Rhan 2(4) – Tymor swydd aelodau
 - Adran 83 – Cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol
 - Adran 144 – Gorchmynion interim
 - Rhan 6, Pennod 5 (adrannau 152 – 155) – Dirymu gorchmynion interim
3. Mae'r diwygiadau arfaethedig hyn yn ceisio egluro neu addasu darpariaethau presennol, i gefnogi GCC yn ei rôl fel rheoleiddiwr y gweithlu.

Beth yw'r problemau â'r darpariaethau presennol a sut rydym yn bwriadu diwygio'r Ddeddf?

Atodlen 2, Rhan 2(4) – Tymor swydd aelodau

4. Mae'r ddarpariaeth hon yn nodi bod '*person a benodir yn aelod o GCC yn dal swydd am unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arno wrth wneud y penodiad; ond ni chaniateir i'r cyfnod hwnnw fod yn hwy na 4 blynedd*'. Nid oes unrhyw fanylion pellach wedi'u cynnwys, felly nid yw'n glir faint o weithiau y gall person gael ei benodi.
5. **Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i ddarparu y gall person sydd wedi dal swydd fel aelod o GCC gael ei ailbenodi unwaith.** Mae hyn yn adlewyrchu arfer bresennol GCC ac yn cyd-fynd â'r dybiaeth gadarn a nodir yn y Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus na ddylai unrhyw unigolyn wasanaethu mwy na dau dymor.

Adran 83 – Cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol

6. Mae adran 83 o Ddeddf 2016 yn ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae adran 82(2) yn nodi'r gofynion ar gyfer cofrestru sy'n cynnwys bod person 'wedi ei gymhwyso'n briodol' ac yn bodloni'r gofynion cymwysterau a nodir yn adran 84. Ar hyn o bryd, os nad yw person sy'n gwneud cais i adnewyddu ei gofrestriad yn bodloni'r gofyniad hwn, ni all GCC ganiatáu ei gais a bydd ei gofrestriad yn darhod. Weithiau bydd pobl yn methu cwrdd â'r gofyniad hwn oherwydd oedi o ran anfon dogfennau. Gall hyn arwain at berson yn colli ei statws cofrestredig a'i gyflogaeth.
7. Cynigir gwelliant a fyddai'n caniatáu i GCC osod amodau ar gofrestriad person [pan fo'r person hwnnw'n gwneud cais i adnewyddu ei gofrestriad], ee bod y person yn cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol o fewn amserlen benodol, pan fo hyn yn cael ei ystyried yn briodol. Byddai hyn yn osgoi achosion lle bydd statws cofrestredig person yn darhod, ac yn caniatáu i GCC fonitro cydymffurfiaeth ag unrhyw amod a dileu'r amod hwnnw ar ôl i bob gofyniad cofrestru gael ei fodloni.
8. **Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i ddarparu'r pŵer i GCC i roi cofrestriad amodol i berson, pan fo'r person hwnnw yn adnewyddu ei gofrestriad, mewn rhai amgylchiadau – o bosibl i'w nodi mewn rheoliadau.** Byddai cynnwys y pŵer hwnnw ar wyneb Deddf 2016 yn rhoi'r gallu i GCC ystyried achosion eithriadol ac atgyfnerthu ymddiriedaeth yn y ffaith y gall y system fod yn deg ac yn hyblyg, pan fo angen.
9. Byddai hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i GCC weithio gydag unigolion i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion angenrheidiol ac osgoi achosion o ddileu pobl o'r gofrestr yn annheg pan fyddai modd iddynt gydymffurfio o gael rhywfaint o gefnogaeth ac amserlen resymol. Byddai hefyd yn ailadrodd rôl GCC o ran cefnogi'r gweithlu cofrestredig i gyflawni ei rwymedigaethau a chryfhau pwysigrwydd cofrestru o ran creu gweithlu proffesiynol.

Adran 144 – Gorchmynion dros dro

10. Mae adran 144 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i GCC osod gorchmyn interim ar berson cofrestredig, sy'n gosod cyfyngiadau dros dro ar ei allu i ymarfer, tra bod ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu cynnal i honiadau a wnaed yn ei erbyn.
11. Gellir rhoi gorchmynion interim ar waith am hyd at uchafswm o 18 mis ac mae gosod gorchmyn yn ddarostyngedig i broses adolygu fanwl. Dylid gosod gorchmynion interim am y cyfnod byrraf gwarantedig, o dan yr amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, pan fo ymchwiliadau yn cymryd yn hirach na'r disgwyl

neu fod angen cynnal ymchwiliadau pellach, efallai y bydd angen estyn hyd y gorchymyn.

12. Ar hyn o bryd, dim ond drwy wneud cais am estyniad i'r Tribiwnlys Safonau Gofal o dan adran 148 y gellir gwneud hyn. Gall y broses hon fod yn gostus ac mae angen achos manwl, ychwanegol ar gyfer estyniad. O'r herwydd, mae GCC yn tueddu i roi gorchmynion interim am gyfnodau hirach, fel arfer amddiffynnol. Gellid osgoi hyn pe byddai gan banel adolygu GCC y pŵer i wneud gorchmynion pellach, hyd at yr un uchafswm o 18 mis.

13. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i ganiatáu i banel¹¹ adolygu ac estyn gorchmynion interim fel y bo'n briodol, hyd at yr uchafswm o 18 mis.

14. Bydd hyn yn sicrhau bod gorchmynion interim yn cael eu defnyddio fel sy'n briodol ac yn gymesur i'r amgylchiadau ac yn rhoi'r pŵer i baneli GCC eu hadolygu a'u hestyn, yn ôl yr angen, am hyd at uchafswm o 18 mis. Byddai hyn yn darparu ar gyfer proses symlach, er budd pob parti, heb leihau hawl person i ofyn am adolygiad o orchmynion interim (a.146) neu i apelio yn eu herbyn (a.145).

Rhan 6, Pennod 5 (adrannau 152 – 155) – Dirymu gorchmynion interim

15. Mae Rhan 6, Pennod 5 o Ddeddf 2016 yn nodi'r system ar gyfer 'achosion adolygu', lle mae panel Addasrwydd i Ymarfer yn adolygu addasrwydd person i ymarfer, yn unol ag unrhyw ofyniad perthnasol a geir:

- mewn unrhyw ymgymeriadau y cytunwyd arnynt rhwng panel Addasrwydd i Ymarfer a'r person cofrestredig;
- o fewn gorchymyn cofrestru amodol;
- o fewn gorchymyn atal dros dro; neu
- lle ceir atgyfeiriad gan GCC ar gyfer adolygiad (o dan adran 133)

16. Yn ymarferol, ar rai adegau gall person cofrestredig fod yn ddarostyngedig i achosion adolygu ac yn ddarostyngedig i orchymyn interim o dan adran 144, mewn perthynas â mater ar wahân. Ar adegau felly, nid yw Deddf 2016 yn caniatáu i banel Addasrwydd i Ymarfer ddirymu unrhyw orchmynion interim wrth benderfynu achosion adolygu – ar hyn o bryd dim ond wrth benderfynu'r

¹¹ Diffinnir panel at ddiben pennod 4 o Ddeddf 2016, o fewn a.143: ystyr "panel" yw'r panel gorchmynion interim neu'r panel addasrwydd i ymarfer y dygir yr achos ger ei fron

prif fater (fel rhan o achos ar wahân) y gall panel Addaswydd i Ymarfer wneud hynny.

- 17. Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i ddarparu panel Addaswydd i Ymarfer gyda'r gallu i ddirymu unrhyw orchymyn interim, yn ystod achosion adolygu, pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol.** Byddai hyn yn galluogi dull gweithredu symlach a fyddai'n fuddiol i bob parti ac yn rhoi rhagor o eglurder nad yw'r broses yn rhy gyfarwyddol ac anhyblyg.

Pa ganlyniadau rydym yn eu disgwyl?

18. Y canlyniad rydym yn disgwyl i'r diwygiadau arfaethedig hyn eu cael yw darparu rhagor o eglurder ac atgyfnerthu bod hyblygrwydd yn y prosesau cofrestru a gorchmynion interim a sefydlwyd gan Ddeddf 2016, er budd y sector a'r gweithlu.
19. Mae'r diwygiad arfaethedig cyntaf yn nodi, ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn ymuno â Bwrdd GCC, y cyfnod hiraf y gallant wasanaethu – gan roi eglurder a chael gwared ar unrhyw ansicrwydd ynghylch y geiriad presennol.
20. Bydd y diwygiadau arfaethedig sy'n ymwneud â chofrestru a gorchmynion interim yn darparu ffyrdd i GCC sicrhau gwasanaeth cliriach a symlach, er budd gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig a GCC ei hun. Ar gyfer personau cofrestredig, bydd y newidiadau sy'n ymwneud â chofrestru a gorchmynion interim yn dileu rhywfaint o'r anhyblygrwydd a'r annhegwch canfyddedig yn y system bresennol, gan alluogi GCC i weithredu mewn modd mwy amserol, gan leihau straen a baich y prosesau hyn ar gyfer unigolion.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

21. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar bob gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig, gan y byddant yn rhoi mwy o eglurder ac yn helpu i symleiddio rhai o'r prosesau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio'r gweithlu.
22. Mae'r cofrestriad arfaethedig a'r gorchmynion interim yn ceisio gwella'r prosesau presennol a sicrhau bod hawl person cofrestredig i wrandawriad teg yn cael ei diogelu. Byddant hefyd yn helpu i sicrhau nad yw prosesau'n cael eu hestyn heb fod angen.
23. Bydd y diwygiadau arfaethedig i'r gorchymyn interim yn adran 144 ac o fewn Rhan 6, Pennod 5 (adrannau 152-155) yn benodol, yn rhoi pwerau

perthnasol i GCC i wneud penderfyniadau priodol a chymesur yn gyflymach, tra'n arsylwi'r broses briodol.

24. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, fodd bynnag, mae croeso i'ch barn ar fanteision, anfanteision, costau ac arbedion y cynnig, ynghyd â'i effeithiau ar gydraddoldeb a'i effeithiau ar y Gymraeg.

Cwestiynau ar gyfer pennod 5

Cwestiwn 5.1: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddarparu y gall person sydd wedi dal swydd fel aelod o Gofal Cymdeithasol Cymru gael ei ailbenodi unwaith? Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 5.2: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i roi'r pŵer i Gofal Cymdeithasol Cymru i roi cofrestriad amodol i berson, pan fo'r person hwnnw'n adnewyddu ei gofrestrriad, mewn rhai amgylchiadau? Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 5.3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ganiatáu panel i adolygu ac estyn gorchmynion interim fel sy'n briodol, am hyd at uchafswm o 18 mis? Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 5.4: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 2016 i ddarparu panel Addasrwydd i Ymarfer sydd â'r gallu i ddirymu gorchymyn interim, yn ystod achosion adolygu, pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol? Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 5.5: Beth yn eich barn chi fyddai'n ei gwneud yn angenrheidiol ac yn briodol i banel Addasrwydd i Ymarfer ddirymu gorchymyn interim?

Cwestiwn 5.6: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn y bennod hon? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:

- Manteision ac anfanteision;

- Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;
- Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;
- Materion ymarferol eraill.

Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol.

Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 5.7: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y bennod hon yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 5.8: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion yn y bennod hon gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 5.9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Pennod 6: Estyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

1. Mae'r bennod hon o'r ymgynghoriad yn disgrifio'r berthynas bresennol rhwng gweithwyr gofal plant a chwarae a Gofal Cymdeithasol Cymru ('GCC') ac mae'n gofyn am eich barn ar ddiwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') i alluogi – drwy wneud rheoliadau – pob gweithiwr gofal plant a chwarae, sy'n gweithio yn y sector gofal plant, i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn darparu mandad clir i GCC i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r gweithlu gofal plant a chwarae, yn ei gyfanrwydd.

Beth yw'r broblem gyda'r ddarpariaeth bresennol?

2. Nid yw'r diffiniad presennol o 'weithiwr gofal cymdeithasol' yn adran 79 o Ddeddf 2016 yn darparu'r sail gynhwysfawr a chydlynol angenrheidiol ar gyfer swyddogaeth arferol a hanesyddol GCC o gefnogi'r sector gofal plant.
3. Mae adran 79 yn nodi ystyr 'gweithiwr gofal cymdeithasol' at ddibenion Deddf 2016. Hefyd, mae is-adran (2) yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ragnodi bod personau o unrhyw un o'r disgrifiadau yn is-adran (3) i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. Yn rhinwedd adran 79(3)(d) a [Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru \(Ehangu Ystyr "Gweithwyr Gofal Cymdeithasol"\) \(Cymru\) 2016](#) – a wnaed o dan adran 79(2) – caiff person sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o [Fesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\) 2010](#) fel (i) gwarchodwr plant neu (ii) darparwr gofal dydd i blant ei drin fel gweithiwr gofal cymdeithasol, at rai o ddibenion GCC.
4. Fel sy'n cael ei ddisgrifio ar hyn o bryd yn adran 79(3)(d)(ii), mae 'darparwr gofal dydd i blant' ond yn cynnwys y person sy'n ddarparwr y gwasanaeth. Nid yw hyn yn cynnwys eu staff. Yr effaith ymarferol yw nad yw gweithwyr gofal plant a chwarae yn dod o dan y diffiniad cyfreithiol o 'weithiwr gofal cymdeithasol', a reoleiddir o dan Ddeddf 2016 gan GCC.
5. Yn hanesyddol, mae GCC - 'Cyngor Gofal Cymru' gynt - fel un o bartneriaid strategol Llywodraeth Cymru, wedi bod yn cefnogi **pawb** sy'n gweithio yn y sector gofal plant. GCC sy'n gyfrifol am y fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal plant, gan bennu'r cymwysterau y mae rhaid i reolwyr ac ymarferwyr eu cael er mwyn gweithio yn y sector. Mae hefyd yn allweddol o ran datblygu cymwysterau newydd, ac o ran sicrhau ansawdd cymwysterau presennol.

Hefyd, mae GCC yn cefnogi'r sector a'i weithlu mewn nifer o ffyrdd, drwy ddarparu cyngor ac arweiniad, yn ogystal â darparu gwybodaeth am bynciau amrywiol fel atal a rheoli heintiau, diogelu a recriwtio effeithiol.

Sut rydym yn bwriadu diwygio'r Ddeddf?

6. Mae adran 79(3) o Ddeddf 2016 yn cynnwys disgrifiadau o wahanol fathau o weithwyr gofal cymdeithasol. Mae graddau swyddogaethau GCC – ei gylch gwaith – yn cael ei osod drwy gyfeirio at y mathau hyn o weithwyr. Nid yw adran 79(3) ar hyn o bryd yn cynnwys y gweithwyr gofal plant na'r gweithwyr chwarae a gyflogir gan ddarparwyr cofrestredig. Bydd sicrhau bod y gweithwyr hyn yn cael eu cynnwys fel dosbarth o weithiwr gofal cymdeithasol yn egluro'r sail statudol i rôl GCC o ran hyrwyddo ansawdd a goruchwyllo'r fframwaith cymwysterau ar gyfer **pob** gweithiwr gofal plant a phob gweithiwr chwarae a gyflogir yn y sector.
7. **Felly, rydym yn cynnig diwygio adran 79(3) er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal plant a chwarae yn cael eu cynnwys yn y disgrifiadau o bersonau y gellir eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.** Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy wneud rheoliadau, i ehangu ystyr 'gweithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae.

Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?

8. Bydd estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' yn Neddf 2016 yn egluro'r rôl statudol y mae GCC yn ei chwarae, nid yn unig mewn perthynas â ddarparwyr gofal plant cofrestredig ond mewn perthynas â phob gweithiwr gofal plant a chwarae a gyflogir yn y sector.
9. Byddai hyn yn cynnwys y gweithwyr hynny sy'n darparu gofal mewn lleoliadau gofal plant a chwarae (nid y rhai mewn rolau gweinyddol neu rolau eraill mewn lleoliadau) ac sy'n cael eu cyflogi drwy amrywiaeth o drefniadau contractiol (parhaol, tymor penodol, dim oriau ac ati yn ogystal â staff asiantaeth a'r rhai sy'n gwirfoddoli mewn lleoliadau).
10. Mae'n hanfodol bod GCC yn gallu darparu'r cymorth angenrheidiol i weithwyr gofal plant a chwarae, i sicrhau cynaliadwyedd y sector, fel bod rhieni a theuluoedd yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt, i

allu gweithio. Yn benodol, er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cyflawni ei hymrwymiaadau yn y [Rhaglen Lywodraethu](#) a'r [Cytundeb Cydweithio](#) ynghylch ehangu'r ddarpariaeth gofal plant i bob plentyn 2 oed yng Nghymru, yn ogystal â'r ymrwymiad i dyfu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, rhaid i'r sector fod yn gynaliadwy; rhaid cael gweithlu digon mawr a digon cymwys. Mae gwaith GCC yn hanfodol yn hyn o beth ac mae angen sail ddeddfwriaethol glir i allu parhau i gefnogi'r sector gofal plant a chwarae, yn ei gyfanrwydd.

Beth yw'r effeithiau tebygol?

11. Byddai'r newid yn effeithio ar GCC yn bennaf. Byddai ei drefniadau presennol i gefnogi gweithwyr gofal plant yn parhau, ond byddai mwy o alw oherwydd yr angen i gynnwys cefnogaeth i weithwyr chwarae.
12. Bydd gwaith GCC yn cynyddu o ran cwmpas ac mae'n debygol o gynnwys gwaith i gefnogi a dal y rhestr gydnabyddedig o gymwysterau chwarae, yn ogystal â darparu cyngor ac arweiniad penodol i weithwyr chwarae. Mae GCC yn gefnogol, mewn egwyddor, o'r cynnig i estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae, a bydd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i asesu'r goblygiadau o ran adnoddau.
13. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, fodd bynnag, mae croeso i'ch barn ar fanteision, anfanteision, costau ac arbedion y cynnig, ynghyd â'i effeithiau ar gydraddoldeb a'i effeithiau ar y Gymraeg.

Cwestiynau ar gyfer pennod 6

Cwestiwn 6.1: Hoffem wybod eich barn ar y cynnig i estyn y diffiniad o 'gweithiwr gofal cymdeithasol' i gynnwys gweithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae. Yn benodol, ydych chi'n ffafrio estyn rôl Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae sy'n gweithio yn y sector gofal plant?

Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 6.2: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynnig? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft:

- Manteision ac anfanteision;
- Costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion;
- Effeithiau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;
- Materion ymarferol eraill.

Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol.

Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 6.3: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 6.4: Eglurwch sut rydych chi'n credu y gallai'r cynnig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6.5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y bennod hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.